**Rhif: WG53214**

# Llywodraeth Cymru ac Awdurdod Cyllid Cymru
# Dogfen Ymgynghori

# Ymgynghoriad ar gynigion deddfwriaethol mewn perthynas â Deddfau Trethi Cymru

Dyddiad cyhoeddi: 3 Tachwedd 2025
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 26 Ionawr 2026

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg hefyd / This document is also available in Welsh
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome correspondence and telephone calls in Welsh

OGL © Crown copyright xxxx

## Trosolwg

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio'ch barn ar gynigion Llywodraeth Cymru ac Awdurdod Cyllid Cymru i wneud newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru, sef Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016, Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017, a Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017. Byddai'r newidiadau deddfwriaethol a gynigir yn ceisio unioni meysydd lle mae ACC wedi ei chael hi'n anodd, yn ymarferol, i weithredu'r ddeddfwriaeth yn effeithiol, mewn ymateb i adborth gan drethdalwyr neu i sicrhau bod Cymru yn unol â newidiadau sydd wedi digwydd mewn rhannau eraill o'r DU. Bydd angen deddfwriaeth sylfaenol i roi'r cynigion y mae Llywodraeth Cymru yn dewis eu cyflwyno ar waith a byddant yn amodol ar gymeradwyaeth Senedd Cymru.

## Sut i ymateb

Ymatebwch i'r ymgynghoriad hwn drwy ateb y cwestiynau sydd yn y ddogfen hon ac ar y ffurflen ymateb. Gellir cyflwyno ymatebion mewn sawl ffordd:

Ar-lein: dolen

E-bost: ymgynghoriad@acc.llyw.cymru

Post: **Awdurdod Cyllid Cymru**

Blwch SP 108
Merthyr Tudful
CF47 7DL

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, Braille ac mewn ieithoedd eraill.

## Manylion cyswllt

Am ragor o wybodaeth:

**Awdurdod Cyllid Cymru**
Blwch SP 108
Merthyr Tudful
CF47 7DL

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg: dolen

## Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR y DU)

Awdurdod Cyllid Cymru (ACC) a Llywodraeth Cymru fydd y rheolyddion data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych fel rhan o'ch ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff ACC a Llywodraeth Cymru sy'n ymdrin â'r materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgyngoriadau yn y dyfodol. Pan fo ACC a Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Dim ond o dan gontract yr ymgymerir â gwaith o'r fath. Mae telerau ac amodau safonol ACC a Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a chadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru ac ACC yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Yna byddwn yn eu golygu cyn cyhoeddi er mwyn cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os caiff eich manylion eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau cyhoeddedig hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd unrhyw elfennau o'ch data a ddelir fel arall gan ACC neu Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r ymateb i'r ymgynghoriad hwn, yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

### Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan amgylchiadau penodol) i wrthwynebu prosesu neu gyfyngu ar brosesu
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i wneud cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, sef ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae ACC neu Lywodraeth Cymru yn ei dal ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan Reoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data, gweler y manylion cyswllt isod:

Swyddog Diogelu Data ACC:
Awdurdod Cyllid Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ
e-bost:
Swyddogdiogelwchdata@llyw.cymru

Swyddog Diogelu Data Llywodraeth Cymru:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ
e-bost:
Swyddogdiogelwchdata@llyw.cymru

Manylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yw:

Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire SK9 5AF
Ffôn: 01625 545 745 neu 0303 123 1113
Gwefan: https://ico.org.uk/

**Cynnwys**


Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR y DU) .... 3
Rhagair .... 6
Cyflwyniad .... 8
Cefndir .... 8
Awdurdod Cyllid Cymru .... 8
Ffordd Gymreig o Drethu .... 9
Egwyddorion treth a phrosesau llunio polisi Llywodraeth Cymru .... 9
Deddfau Trethi Cymru .... 10
Nodau ac amcanion Bil Cynhaliaeth Trethiant .... 10
Dibenion yr ymgynghoriad hwn .... 11
Diffiniadau .... 12
Y Camau Nesaf .... 12
Fformat yr ymgynghoriad .... 12
Cwestiynau'r Ymgynghoriad .... 14
Llywodraethu ACC .... 14
Pwerau trethu ACC .... 16
Newidiadau i drethi .... 36
Y Gymraeg .... 47
Cwestiynau eraill .... 48
Tryloywder ac ymgysylltu .... 48
Amserlenni gweithredu .... 48

## Rhagair

Ers mis Ebrill 2018, mae Cymru wedi cael budd o ganlyniad i ddatganoli dwy dreth: y Dreth Gwarediadau Tirlenwi a'r Dreth Trafodiadau Tir, y mae'r naill a'r llall yn cael eu casglu a'u rheoli gan Awdurdod Cyllid Cymru (ACC). O 2026, bydd ACC yn gweinyddu'r gofrestr genedlaethol o lety ymwelwyr, ac o 2027 bydd yn casglu'r ardoll ymwelwyr ar ran prif gynghorau.

Yn ystod y flwyddyn ariannol 2024/2025, mae £372 miliwn mewn refeniw treth wedi cael ei gasglu i Gymru o'n dwy dreth ddatganoledig. Mae refeniw o'r Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn cael ei ailfuddsoddi gan Lywodraeth Cymru mewn gwasanaethau cyhoeddus, fel y GIG ac ysgolion, mewn cymunedau ledled Cymru.

Dros amser, mae profiad ymarferol wedi dangos bod angen i agweddau penodol ar y ddeddfwriaeth sy'n sail i bob un o'r trethi datganoledig, a'r ffordd y mae ACC ei hun yn gweithredu, gael eu mireinio.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn cynnwys pecyn o newidiadau arfaethedig i Ddeddfau Trethi Cymru:

- Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016
- Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017
- Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017

Daw'r diwygiadau a amlinellir yn yr ymgynghoriad hwn o saith blynedd o brofiad gweithredol o gasglu a rheoli trethi datganoledig, adborth gan ddiwydiant, cynrychiolwyr, partneriaid gwasanaethau cyhoeddus Cymru, ac mewn ymateb i newidiadau deddfwriaethol perthnasol gan Lywodraeth y DU. Bwriedir i'r newidiadau technegol roi eglurder ynglŷn â Deddfau Trethi Cymru, eu gwella a sicrhau eu bod yn addas at y dyfodol er mwyn galluogi ACC i barhau i gasglu trethi mor effeithiol â phosibl a helpu i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus ehangach yng Nghymru.

Er bod yr ymgynghoriad hwn yn ceisio sicrhau bod agweddau pwysig ar ddeddfwriaeth trethi Cymru yn addas at y dyfodol, mae meysydd pellach y tu hwnt i'r ymgynghoriad presennol y bydd yn ofynnol i Lywodraeth nesaf Cymru eu hystyried. Bydd y rhain yn cynnwys a oes gan ACC yr holl adnoddau sydd eu hangen i ymaddasu i newidiadau yn ymddygiad trethdalwyr a'u hasiantau fel ei gilydd, ac ystyried effeithiau a chyfleoedd sy'n codi o newidiadau i'r ffframwaith gweinyddu trethi ehangach ledled y Deyrnas Unedig. At hynny, gan mai ACC yw'r adran anweinidogol gyntaf i'w sefydlu gan Lywodraeth Cymru, mae'n briodol ystyried, wrth inni ddynesu at ddeng mlynedd ers ei sefydlu, a yw ei drefniadau llywodraethu mor effeithiol ag y gallant fod, a pha wersi y gellir eu dysgu oddi wrthynt. Os bydd yn dewis gwneud hynny, Llywodraeth nesaf Cymru fydd yn cyflwyno cynigion mewn Papur Gwyrdd i ystyried y materion hyn.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn ar y materion a godwyd, y mae llawer ohonynt o natur dechnegol. Os bydd gennych unrhyw faterion eraill yr hoffech eu codi, byddwn yn eich annog i achub ar y cyfle hwn i wneud hynny.

Edrychaf ymlaen at ddarllen eich ymatebion.

**Mark Drakeford AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg**

## Cyflwyniad

Cefndir

Ym mis Ebrill 2018, dechreuodd Awdurdod Cyllid Cymru (ACC) gasglu a rheoli dwy dreth a oedd wedi'u datganoli i Gymru ar ran Llywodraeth Cymru: y Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi.

Treth ar drafodiadau tir yng Nghymru yw'r Dreth Trafodiadau Tir[1]. Codir y Dreth Gwarediadau Tirlenwi[2] ar warediadau trethadwy o wastraff yng Nghymru. Disodlodd y trethi hyn Dreth Dir Treth Stamp y DU a threth dirlenwi'r DU.

Dros y saith blynedd ers i ACC ddechrau gweinyddu'r trethi hyn, mae nifer o feysydd wedi cael eu nodi lle y byddai'n fuddiol rhoi rhagor o eglurder ynglŷn â'r ddeddfwriaeth er mwyn helpu trethdalwyr i sicrhau eu bod yn talu'r swm cywir o dreth. Mae profiad gweithredol ACC dros y cyfnod hwn hefyd wedi nodi meysydd lle mae angen i agweddau ar ei strwythur llywodraethu mewnol neu'r pwerau y mae'n eu defnyddio i gyflawni ei swyddogaethau gael eu diweddaru.

Er mai mater i Lywodraeth nesaf Cymru yw hwn, mae Llywodraeth bresennol Cymru yn dymuno rhoi ei holynydd mewn sefyllfa i weithredu ar y 'bil cynhaliaeth trethiant' cyntaf – a fydd yn cynnwys cyfres o ddiwygiadau i Ddeddfau Trethi Cymru nad ydynt yn gysylltiedig â'i gilydd[3] i'w gwneud drwy gyflwyno deddfwriaeth sylfaenol. Dylai'r newidiadau hyn sicrhau bod Deddfau Trethi Cymru yn cyflawni'r canlyniadau a fwriedir gan Senedd Cymru. Dylent ei gwneud yn bosibl i drethdalwyr a'u cynghorwyr ddeall eu rhwymedigaethau'n glir, ac i ACC allu casglu trethi mor effeithlon â phosibl a helpu i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus ehangach yng Nghymru.

Awdurdod Cyllid Cymru

Un o adrannau anweinidogol Llywodraeth Cymru yw ACC. Fel corff gweinyddu trethi Llywodraeth Cymru, mae'n datblygu ac yn darparu gwasanaethau i bobl gofrestru, cyfrifo a thalu trethi yng Nghymru. Mae ACC bellach yn gyfrifol am gasglu a rheoli'r ardoll ymwelwyr ar ran prif gynghorau yng Nghymru a bydd yn gweithredu'r gofrestr o ddarparwyr llety ymwelwyr ledled Cymru.

Diben cyffredinol ACC yw llunio a darparu gwasanaethau cyllid cenedlaethol Cymru ac arwain gwell defnydd o ddata trethdalwyr Cymru er mwyn sicrhau gwell canlyniadau polisi yng Nghymru. Amcanion strategol ACC, a nodir yn ei Gynllun Corfforaethol[4] yw:

- ei gwneud yn hawdd gwneud y peth iawn

[1] https://www.llyw.cymru/treth-trafodiadau-tir-rhagarweiniad
[2] https://www.llyw.cymru/treth-gwarediadau-tirlenwi-rhagarweiniad
[3] Mae Deddfau Trethi Cymru yn cynnwys Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016, Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 a Deddf Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017.
[4] https://www.llyw.cymru/cynllun-corfforaethol-awdurdod-cyllid-cymru-2025-i-2028

- bod yn deg ac yn gyson yn y ffordd rydym yn darparu ein gwasanaethau
- bod yn sefydliad cynaliadwy sy'n canolbwyntio ar y dyfodol

Nod y newidiadau a gyflwynir yn yr ymgynghoriad hwn yw galluogi ACC i gyflawni ei amcanion strategol.

Ffordd Gymreig o Drethu

Mae ACC yn helpu i ddarparu system drethi deg i Gymru drwy'r hyn a elwir yn 'Ein Dull o Weithredu' – ffordd Gymreig o drethu. Drwy weithio gyda threthdalwyr, cynrychiolwyr, partneriaid a'r cyhoedd, gall ACC sicrhau bod trethi yn cael eu casglu mewn ffordd effeithiol ac effeithlon.

Diffinnir 'Ein Dull o Weithredu' gan y tri therm Cymraeg hyn:

- Mae 'cydweithio' yn golygu gweithio gyda'n gilydd ac mae'n dwyn yr ystyr gweithio tuag at nod cyffredin
- Mae 'cadarnhau' yn awgrymu ansawdd cadarn, solet y gellir dibynnu arno; mae hyn yn ymwneud â rhoi sicrwydd, bod yn gywir ac atgyfnerthu ymddiriedaeth
- Mae 'cywiro' yn golygu 'dychwelyd i'r gwirionedd' yn llythrennol ac mae'n ymwneud â'r ffordd mae ACC yn gweithio â threthdalwyr i ymdrin â gwallau neu bryderon

Mae 'Ein Dull o Weithredu' wedi'i ysbrydoli gan Siarter[5] ACC sy'n esbonio'r gwerthoedd, yr ymddygiadau a'r safonau a rennir sy'n sail i berthynas ACC â threthdalwyr a'u cynrychiolwyr.

Egwyddorion treth a phrosesau llunio polisi Llywodraeth Cymru

Mae cydweithio a chynnwys wrth wraidd y ffordd rydym yn datblygu polisi treth. Mae Llywodraeth Cymru ac ACC yn gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid allanol i wneud penderfyniadau sy'n gweithio i bawb.

Rydym yn ceisio cydbwyso'r angen uniongyrchol ag ystyriaethau yn y tymor hwy i sicrhau bod Deddfau Trethi Cymru yn addas at y dyfodol er mwyn gwasanaethu dinasyddion a busnesau yng Nghymru yn well.

Mae'r cynigion a nodir drwy'r ymgynghoriad hwn yn cyd-fynd â phum egwyddor treth graidd[6] Llywodraeth Cymru sy'n fodd i sicrhau dull cyson a strategol o ddatblygu a chyflwyno polisïau treth yng Nghymru. Mae'r broses barhaus o asesu a chymhwyso'r egwyddorion hyn yn sicrhau bod polisïau trethi yn gyson ag amcanion ehangach Llywodraeth Cymru. Mae angen i'n trethi weithredu mewn ffordd gyson a chydlynol

[5] https://www.llyw.cymru/awdurdod-cyllid-cymru/ein-siarter
[6] Fel y'i nodwyd yn fframwaith polisi trethi Llywodraeth Cymru: https://www.llyw.cymru/diweddariad-fframwaith-polisi-trethi

hefyd fel rhan o system trethi a budd-daliadau ehangach y DU. Mae cysoni ein dull o weithredu a'n trethi â'r egwyddorion craidd hyn yn sicrhau ein bod mewn sefyllfa well i fynd i'r afael ag anghenion ehangach dinasyddion a busnesau Cymru.

Dylai trethi Cymru:

- Godi refeniw i ariannu gwasanaethau cyhoeddus mor deg â phosibl.
- Cyflawni amcanion polisi Llywodraeth Cymru.
- Bod yn glir, yn sefydlog ac yn syml.
- Cael eu datblygu drwy gydweithio a chynnwys pobl.
- Cyfrannu'n uniongyrchol at nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 o greu Cymru sy'n fwy cyfartal.

Mae'r egwyddorion treth hyn yn adlewyrchu gwerthoedd ac amcanion Llywodraeth Cymru. Maent yn rhoi'r llwyfan inni allu eu hymgorffori mewn ystyriaethau polisi a chynaliadwyedd; a phwysigrwydd sicrhau bod trethi Cymru yn parhau i fod yn gymesur ac yn flaengynyddol. Fel y cyfryw, ynghyd â'r ffordd Gymreig o drethu a fabwysiedir gan ACC, mae ein hegwyddorion polisi trethi yn cynnig cyfres glir o feini prawf i asesu cyfraniad polisi trethi a'n system dreth ehangach wrth greu Cymru wyrddach, decach a mwy cynhwysol.

<u>Deddfau Trethi Cymru</u>

Mae Deddfau Trethi Cymru yn cynnwys:

- Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016
- Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017
- Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017

Mae Deddfau Trethi Cymru, ar y cyd, yn cynnwys y ddeddfwriaeth y mae ACC yn ei defnyddio i weinyddu trethi yng Nghymru.

Mae'r Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi yn cynnwys deddfwriaeth a oedd yn sefydlu ACC ac yn nodi darpariaethau ar gyfer ei swyddogaethau, ei drefniadau llywodraethu a'i bwerau (megis rhoi cosbau, ymholiadau i gywirdeb ffurflen dreth trethdalwr), a'r mesurau diogelu a roddir i drethdalwyr drwy'r hawl i apelio i'r tribiwnlys annibynnol. Mae hefyd yn cynnwys darpariaethau ar gyfer y Rheol Gyffredinol yn Erbyn Osgoi Trethi – adnodd pwysig i atal a gwrthweithio achosion o osgoi trethi.

Sefydlodd y Ddeddf Treth Gwarediadau Tirlenwi y Dreth Gwarediadau Tirlenwi ac mae'n nodi'r sail dros y ffordd y mae'r dreth yn gweithio. Yn yr un modd, sefydlodd Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 y Dreth Trafodiadau Tir.

<u>Nodau ac amcanion Bil Cynhaliaeth Trethiant</u>

Rydym yn cynnig y dylid llunio bil cynhaliaeth trethiant gyda'r nodau canlynol:

- Gan ddefnyddio profiad ACC o weinyddu trethi datganoledig Cymru i ddiwygio Deddfau Trethi Cymru er mwyn egluro sut y caiff y dreth ei chymhwyso mewn meysydd penodol a'i gwneud yn bosibl i drefniadau gweinyddu trethi fod yn fwy effeithiol ac effeithlon.
- Helpu i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru drwy ei gwneud yn bosibl i ddata a gesglir gan ACC gael eu rhannu â Llywodraeth Cymru a phartneriaid mewn llywodraeth leol.
- Er y gallai rhai o'r diwygiadau a gynigir yn yr ymgynghoriad hwn gael eu gwneud drwy reoleiddwyr gan ddefnyddio pwerau a ddarperir i Weinidogion Cymru gan y Senedd, nid oes modd gwneud eraill yn y fath fodd. Felly, manteisiwyd ar y cyfle i grwpio ynghyd y rhai y mae angen deddfwriaeth sylfaenol i'w gwneud a'r rhai y gellid eu gwneud drwy ddefnyddio pwerau i wneud rheoliadau a roddir i Weinidogion Cymru.

Dibenion yr ymgynghoriad hwn

Er ein bod wedi nodi yn yr ymgynghoriad hwn (lle y bo'n berthnasol) y cyfeiriad y mae Llywodraeth Cymru am ei ddilyn o ran y polisi, caiff ymatebion i'r ymgynghoriad eu hadolygu a'u hystyried yn llawn cyn y gwneir unrhyw benderfyniadau terfynol ar y newidiadau arfaethedig i Ddeddfau Trethi Cymru. Caiff y broses gwneud penderfyniadau ei llywio gan y graddau y mae'r newidiadau arfaethedig yn cyd-fynd ag egwyddorion treth craidd Llywodraeth Cymru ac ACC. Caiff y rhain eu cymhwyso'n gyson wrth asesu ymatebion i'r ymgynghoriad ac wrth wneud y penderfyniad terfynol ynglŷn â'r newidiadau sydd i'w gweithredu.

## Diffiniadau

Drwy'r ddogfen hon, cyfeiriwn at grwpiau neu eiriau amrywiol y gall y sawl sy'n darllen eu dehongli'n wahanol. Mae'r diffiniadau o'r geiriau hyn wedi'u gosod yng nghyd-destun y ddogfen ymgynghori hon a'r bil cynhaliaeth trethiant arfaethedig. Dylid eu deall yn y modd hwn. Er eglurder, rydym wedi nodi rhai diffiniadau allweddol a ddefnyddir yn y ddogfen hon:

| | |
|---|---|
| **Senedd** | y ddeddfwrfa ddatganoledig yng Nghymru, pa enw bynnag a roddwyd arni ar y pryd. |
| **Trethi a gesglir gan ACC** | Y dreth trafodiadau tir, y dreth gwarediadau tirlenwi, neu'r ardoll ymwelwyr |

## Y Camau Nesaf

Yn dilyn y cyfnod ymgynghori, bydd y gwaith datblygu polisi yn parhau, yn seiliedig ar yr ymatebion a gafwyd. Caiff y camau nesaf eu cyhoeddi ar ôl i'r ymatebion i'r ymgynghoriad gael eu hystyried yn llawn. Bydd unrhyw benderfyniad i gyflwyno'r ddeddfwriaeth newydd arfaethedig yn cael ei wneud gan Lywodraeth nesaf Cymru ar ôl etholiad Senedd Cymru yn 2026.

## Fformat yr ymgynghoriad

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ystyried nifer o faterion deddfwriaethol ar wahân mewn perthynas â Deddfau Trethi Cymru, sy'n cyflwyno'r achos dros newid a'r ffordd arfaethedig ymlaen ym mhob achos. Rhoddir cyd-destun cyn pob cwestiwn er mwyn galluogi'r ymatebydd i roi ymateb ar sail gwybodaeth. Mae'r holl gwestiynau wedi'u rhestru gyda'i gilydd yn Atodiad A. Defnyddir troednodiadau i nodi cyfeiriadau lle y bo angen a cheir rhestr lawn o'r ffynonellau tua diwedd y ddogfen hon yn Atodiad B.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn cwmpasu meysydd lle mae ACC wedi wynebu heriau o ran gweinyddu trethi a gesglir gan ACC, neu lle mae newidiadau i ddeddfwriaeth ehangach y DU yn rhoi rheswm dros ystyried diwygio ei bwerau treth. I raddau helaeth, nid yw'r newidiadau hyn yn gysylltiedig â'i gilydd, ond mae rhai themâu cyffredin.

Mae'r cwestiwn cyntaf yn ymdrin â mater sy'n ymwneud â llywodraethu mewnol ACC, fel y'i sefydlwyd yn y Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi. Mae'r newid arfaethedig yn ceisio gwneud y strwythurau llywodraethu presennol yn fwy eglur a sicrhau eu bod yn gweithio mor effeithiol â phosibl.

Yna, mae cwestiynau 2-10 yn ymdrin ag agweddau ar bwerau ACC fel y'i rhoddwyd o dan y Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi. Cyflwynir nifer o faterion lle nad yw pwerau

presennol ACC, yn ymarferol, yn gweithio yn ôl y bwriad, neu lle mae cyfleoedd i adeiladu ar y darpariaethau presennol i gefnogi prosesau gweinyddu trethi yng Nghymru.

Mae cwestiynau 11-16 yn cyflwyno nifer o faterion treth ar wahân sy’n ymwneud â gweithredu’r Dreth Trafodiadau Tir a’r Dreth Gwarediadau Tirlenwi, lle mae cyfleoedd i egluro neu wella’r darpariaethau er mwyn helpu i sicrhau bod y dreth gywir yn cael ei thalu.

Mae cwestiynau 17 a 18 yn cwmpasu effaith bosibl y newidiadau arfaethedig ar y Gymraeg, ac unrhyw newidiadau i gynigion y bydd eu hangen o bosibl i liniaru effeithiau ar y Gymraeg.

Mae cwestiwn 19 yn rhoi’r cyfle i ymatebwyr i’r ymgynghoriad roi adborth ar unrhyw faterion cysylltiedig nad yw’r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw.

## Cwestiynau'r Ymgynghoriad

Llywodraethu ACC

### 1. Aelodau anweithredol o bwyllgorau ACC

1.1 Pan sefydlwyd ACC yn gyntaf fel adran anweinidogol o fewn Llywodraeth Cymru, rhoddwyd ystyriaeth i gyfansoddiad corfforaethol ACC. Cafwyd opsiynau cam cynnar ynglŷn â llywodraethu corfforaethol y sefydliad newydd: yn benodol, a ddylid sefydlu strwythur llywodraethu cyfarwydd a phrofedig (yng Nghymru) (Bwrdd â Chadeirydd anweithredol), neu efelychu strwythur Comisiynwyr Gweithredol CThEF. Ystyriwyd y byddai manteision llywodraethu Bwrdd a gadeirir gan aelod anweithredol ac sy'n cynnwys mwyafrif o aelodau anweithredol yn fwy dymunol.

1.2 Mae adran 3 o'r Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi yn darparu ar gyfer aelodaeth ACC, a fydd yn cynnwys aelodau anweithredol a gweithredol a rhwng wyth a 13 o aelodau.

1.3 Mae adran 8 o'r Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi yn gwneud darpariaeth i ACC sefydlu pwyllgorau (a all sefydlu is-bwyllgorau) at unrhyw ddiben sy'n ymwneud â'i swyddogaethau. Caiff ACC benderfynu ar gyfansoddiad y pwyllgorau a hefyd benodi pobl nad ydynt yn aelodau o ACC a rhoi cydnabyddiaeth iddynt am eu gwasanaethau, gyda chymeradwyaeth Gweinidogion Cymru. Ni all unigolion nad ydynt yn aelodau bleidleisio mewn pwyllgor.

1.4 Mae adran 12 o'r Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi yn nodi swyddogaethau ACC, gan gynnwys ei swyddogaeth gyffredinol i gasglu a rheoli trethi a gesglir gan ACC a swyddogaethau penodol sy'n ymwneud â threthi o'r fath, gan gynnwys: darparu gwybodaeth a chymorth i Weinidogion Cymru a threthdalwyr ac eraill; datrys cwynion ac anghydfodau; a hyrwyddo cydymffurfedd â threthi a mynd ati i ddiogelu rhag efadu trethi ac osgoi trethi. Caiff ACC gymryd camau gweithredu eraill y tybia eu bod yn angenrheidiol neu'n hwylus mewn cysylltiad ag arfer ei swyddogaethau.

1.5 Mae adran 3[7] o'r Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi yn darparu ar gyfer aelodaeth ACC, a fydd yn cynnwys aelodau anweithredol a gweithredol a rhwng wyth a 13 o aelodau.

1.6 Mae adran 8[8] o'r Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi yn gwneud darpariaeth i ACC sefydlu pwyllgorau (a all sefydlu is-bwyllgorau) at unrhyw ddiben sy'n ymwneud â'i swyddogaethau. Caiff ACC benderfynu ar gyfansoddiad y pwyllgorau a hefyd benodi pobl nad ydynt yn aelodau o ACC a rhoi cydnabyddiaeth iddynt am eu gwasanaethau, gyda chymeradwyaeth

---

[7] https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/6/section/3
[8] https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/6/section/8

Gweinidogion Cymru. Ni all unigolion nad ydynt yn aelodau bleidleisio mewn pwyllgor.

1.7 Mae adran 12[9] o'r Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi yn nodi swyddogaethau ACC, gan gynnwys ei swyddogaeth gyffredinol i gasglu a rheoli trethi a gesglir gan ACC a swyddogaethau penodol sy'n ymwneud â threthi o'r fath, gan gynnwys: darparu gwybodaeth a chymorth i Weinidogion Cymru a threthdalwyr ac eraill; datrys cwynion ac anghydfodau; a hyrwyddo cydymffurfedd â threthi a mynd ati i ddiogelu rhag efadu trethi ac osgoi trethi. Caiff ACC gymryd camau gweithredu eraill y tybia eu bod yn angenrheidiol neu'n hwylus mewn cysylltiad ag arfer ei swyddogaethau.

1.8 Mae adran 13[10] o'r Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi yn gwneud darpariaeth i ACC awdurdodi'n fewnol aelodau o ACC, ei bwyllgorau, ei is-bwyllgorau neu ei staff i gyflawni ei swyddogaethau. Mae adran 13(2) yn ei gwneud yn ofynnol i o leiaf un aelod anweithredol fod yn aelod o unrhyw bwyllgor neu is-bwyllgor sydd wedi'i awdurdodi i gyflawni swyddogaethau ACC. Pan fo ACC wedi awdurdodi cyflawni unrhyw swyddogaeth o dan adran 13, nid effeithir ar allu ACC i arfer y swyddogaeth honno na'r cyfrifoldeb dros arfer y swyddogaeth

1.9 Mae swyddogaethau gweithredol ACC wedi cael eu dirprwyo i'r 'prif weithredwr neu i unrhyw aelod arall o staff ACC' yn unol ag adran 13(1)(c), sydd, yn ymarferol, wedi golygu uwch-arweinwyr gweithredol ACC ac aelodau o staff fel y bo'n briodol. Bydd uwch-arweinwyr a staff yn ymdrefnu'n bwyllgorau i gyflawni'r swyddogaethau hyn. Mae'r pwyllgorau hyn yn cynnwys ond nid ydynt yn gyfyngedig i'r Pwyllgor Gweithredol a'r Pwyllgor Rheoli Achosion (sy'n gwneud penderfyniadau gweithredol ar achosion).

1.10 Un ffordd o ddehongli'r ddeddfwriaeth yw y gallai fod angen i'r pwyllgorau hyn gynnwys aelodau anweithredol wrth gyflawni swyddogaethau ACC. Hefyd, dim ond aelodau ACC (fel y'u diffiniwyd yn adran 3) sy'n gallu pleidleisio mewn pwyllgor. Byddai hyn yn golygu y byddai'r aelodau anweithredol yn dod yn rhan o reoli'r sefydliad o ddydd i ddydd. Mae hyn yn groes i arferion gorau am ei fod yn cyfyngu ar allu'r bwrdd i graffu ar y ffordd y mae swyddogaethau ACC wedi cael eu cyflawni gan aelodau gweithredol ac yn tanseilio uniondeb goruchwyliaeth y bwrdd. Mae hefyd yn golygu, mewn rhai achosion, y byddai'r aelodau anweithredol (nad ydynt yn weision sifil) yn dod yn rhan o swyddogaeth weithredol llywodraeth.

1.11 **Rydym yn cynnig y dylid diwygio'r Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi er mwyn gwneud y canlynol yn eglur:**

**a) mai'r Bwrdd fydd yn penderfynu pa bwyllgorau neu is-bwyllgorau y bydd angen iddynt gynnwys aelodau anweithredol;**

---

[9] https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/6/section/12
[10] https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/6/section/13

**b) y gall unigolion nad ydynt yn aelodau o ACC (h.y. aelodau o staff ACC nad ydynt yn aelodau o’r Bwrdd) bleidleisio mewn pwyllgorau ac is-bwyllgorau y maent yn aelodau ohonynt (yn unol â’r Cylch Gorchwyl) heblaw am y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd a’r Pwyllgor Cydnabyddiaeth.**

1.12 Nod y newid hwn yw cynnal trefniadau llywodraethu da a chadarnhau y tu hwnt i bob amheuaeth y gall aelodau o staff ACC wneud penderfyniadau ar faterion gweithredol mewn pwyllgor heb aelodau anweithredol.

1.13 Ffordd arall o weithredu fyddai atal aelodau anweithredol rhag cael gweld gwybodaeth warchodedig am drethdalwr. Fodd bynnag, ni fyddai’r newid hwn yn ymdrin â’r mater bod angen i bob pwyllgor gynnwys aelodau anweithredol, a byddai’n atal penderfyniadau ar achosion treth rhag cael eu gwneud mewn pwyllgor (gan na ellir datgelu gwybodaeth am drethdalwyr i aelodau anweithredol sy’n bresennol), er y gall staff ACC wneud penderfyniadau o’r fath o ganlyniad i awdurdodiadau mewnol o dan adran 13 o’r Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi.

**a) A ydych chi’n cytuno neu’n anghytuno â’r diwygiad arfaethedig i’r Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi i egluro cyfansoddiad pwyllgorau ac is-bwyllgorau bwrdd ACC?**

- Cytuno
- Anghytuno

**b) A ydych chi’n cytuno y gall unigolion nad ydynt yn aelodau o ACC (h.y. aelodau o staff ACC nad ydynt yn aelodau o’r Bwrdd) bleidleisio mewn pwyllgorau ac is-bwyllgorau y maent yn aelodau ohonynt (yn unol â’r Cylch Gorchwyl) heblaw am y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd a’r Pwyllgor Cydnabyddiaeth?**

- Cytuno
- Anghytuno

**c) Beth yw’r rhesymau dros eich ateb?**

<u>Pwerau trethu ACC</u>

## 2. Pwerau Rhannu Gwybodaeth

2.1 Mae adran 16[11] o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi 2016 yn caniatáu i wybodaeth sy'n dod i law ACC, neu sefydliad y dirprwywyd swyddogaethau ACC iddo, gael ei defnyddio gan ACC neu unrhyw sefydliad y dirprwywyd swyddogaethau iddo, mewn perthynas ag unrhyw un o swyddogaethau ACC.

2.2 Section Mae adran 17[12] yn gwahardd swyddog perthnasol (fel y'i diffiniwyd yn adran 17(2)) rhag datgelu gwybodaeth warchodedig am drethdalwr oni chaniateir ei datgelu'n benodol.

2.3 Mae adran 16[13] o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi 2016 yn caniatáu i wybodaeth sy'n dod i law ACC, neu sefydliad y dirprwywyd swyddogaethau ACC iddo, gael ei defnyddio gan ACC neu unrhyw sefydliad y dirprwywyd swyddogaethau iddo, mewn perthynas ag unrhyw un o swyddogaethau ACC.

2.4 Mae adran 17[14] yn gwahardd swyddog perthnasol (fel y'i diffiniwyd yn adran 17(2)) rhag datgelu gwybodaeth warchodedig am drethdalwr oni chaniateir ei datgelu'n benodol.

2.5 Diffinnir gwybodaeth warchodedig am drethdalwr fel gwybodaeth sy'n ymwneud â pherson (y "person a effeithir")—

*(a) a ddaeth i law ACC neu a ddaeth i law person y dirprwywyd unrhyw un neu ragor o swyddogaethau ACC iddo mewn cysylltiad â'r swyddogaethau hynny, a*

*(b) y gellir adnabod y person a effeithir ohoni (boed oherwydd bod yr wybodaeth yn nodi pwy yw'r person a effeithir neu oherwydd y gellir casglu pwy ydyw ohoni).*

2.6 Mae adran 18[15] o'r Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi yn nodi'r seiliau a ganiateir ar gyfer datgelu gwybodaeth warchodedig am drethdalwr, sef:

*(za) os gwneir hynny at ddibenion swyddogaethau ACC, heblaw'r swyddogaethau a grybwyllir yn adran 12(2)(a) ac (e), a (3)*

*(a) gwneir hynny gyda chydsyniad pob person y mae'r wybodaeth yn ymwneud ag ef,*

*(b) gwneir hynny at ddiben cael gwasanaethau mewn cysylltiad ag un o swyddogaethau ACC,*

---

[11] https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/6/section/16
[12] https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/6/section/17
[13] https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/6/section/16
[14] https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/6/section/17
[15] https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/6/section/18

*(c) gwneir hynny at ddibenion ymchwiliad troseddol neu achos troseddol neu at ddibenion atal troseddu neu ganfod trosedd,*

*(d) gwneir hynny i gorff sydd â chyfrifoldeb am reoleiddio proffesiwn mewn cysylltiad â chamymddwyn ar ran aelod o'r proffesiwn sy'n ymwneud ag un o swyddogaethau ACC,*

*(e) gwneir hynny at ddibenion achos sifil,*

*(f) gwneir hynny yn unol â gorchymyn llys neu dribiwnlys,*

*(g) gwneir hynny yn unol â deddfiad sy'n gwneud ei datgelu yn ofynnol neu'n caniatáu hynny,*

*(h) gwneir hynny i ACC neu i berson y mae ACC wedi dirprwyo unrhyw un o'i swyddogaethau iddo ar gyfer ei defnyddio yn unol ag adran 16,*

*(i) gwneir hynny i Gyllid a Thollau ei Fawrhydi mewn cysylltiad ag un o swyddogaethau ACC neu mewn cysylltiad ag un o swyddogaethau Cyllid a Thollau ei Fawrhydi, neu*

*(j) gwneir hynny i Revenue Scotland mewn cysylltiad ag un o swyddogaethau ACC neu mewn cysylltiad â chasglu a rheoli treth ddatganoledig o fewn yr ystyr a roddir i dreth ddatganoledig yn Neddf yr Alban 1998.*

2.7 Mae ACC yn casglu cryn dipyn o ddata a allai fod yn ddefnyddiol i helpu i gyflawni swyddogaethau cyrff cyhoeddus eraill yn effeithiol. Ar hyn o bryd, ni all ACC rannu'r data hyn oherwydd cyfyngiadau ar rannu data ACC a ddosberthir yn 'Wybodaeth Warchodedig am Drethdalwr'. Mae angen datgeliad a ganiateir yn ddeddfwriaethol i ddatgelu'r data hyn gan nad oes llwybr addas i ganiatáu eu datgelu yn unol ag adran 18 o'r Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi.

2.8 Mae Deddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025 yn caniatáu cyfrwng arall i ACC rannu gwybodaeth warchodedig am drethdalwr. Bydd paragraff 4 o Atodlen 2 yn diwygio adran 18 o'r Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi i ychwanegu datgeliad a ganiateir arall i rannu gwybodaeth:

2.9 Mae Deddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025 yn caniatáu cyfrwng arall i ACC rannu gwybodaeth warchodedig am drethdalwr. Bydd

paragraff 4 o Atodlen 2 yn diwygio adran 18 o'r Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi i ychwanegu datgeliad a ganiateir arall i rannu gwybodaeth:

*(k) mae'r wybodaeth a ddatgelir yn wybodaeth sydd wedi dod i law mewn cysylltiad â swyddogaethau ACC o dan Ran 2 o Ddeddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025 ac mae'n cael ei datgelu—*

*(i) i brif gyngor mewn cysylltiad ag un o swyddogaethau'r prif gyngor, neu*

*(ii) i Weinidogion Cymru mewn cysylltiad â'u swyddogaethau o dan adran 2 o Ddeddf Datblygu Twristiaeth 1969 (p. 51).*

2.10 Cychwynnir Atodlen 2 Rhan 1 drwy orchymyn cyn mis Ebrill 2026, fel y'i cyhoeddwyd. [16][17] Unwaith y bydd y datgeliad a ganiateir i rannu gwybodaeth yn cychwyn, bydd ACC yn gallu rhannu data'r cynllun cofrestru cenedlaethol yn y modd a ddisgrifir uchod. Cydnabuwyd yn ystod hynt y Ddeddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) drwy'r Senedd y byddai manylion nad ydynt wedi'u cydgrynhoi (megis cyfeiriadau darparwyr llety cofrestredig) yn ddefnyddiol i brif gynghorau ar gyfer materion megis cydymffurfio â'r dreth gyngor ac ardrethi annomestig yn ogystal ag ymchwil i dwristiaeth o ystyried y prinder data yn y maes hwnnw ar hyn o bryd.

2.11 Mae'r rhesymeg hon y gall yr wybodaeth y mae ACC yn ei chasglu yn unol â'i swyddogaethau fod yn ddefnyddiol i gyrff cyhoeddus eraill (megis prif gynghorau at ddibenion trethiant lleol) gael ei chymhwyso at yr wybodaeth y mae ACC yn ei chasglu ar gyfer y trethi datganoledig a'r ardoll ymwelwyr.

2.12 **Rydym yn cynnig y dylid diwygio adran 18(1) o'r Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi i gyflwyno dau ddatgeliad newydd a ganiateir yn ddeddfwriaethol i ganiatáu i ACC ddatgelu gwybodaeth i brif gynghorau a Llywodraeth Cymru, at ddibenion eu swyddogaethau.**

2.13 Nod y newid hwn yw helpu prif gynghorau i reoli trethiant lleol yn effeithiol yn ogystal â chefnogi gwaith datblygu ac ymchwil ar bolisïau lleol a chenedlaethol drwy rannu gwybodaeth y mae ACC eisoes yn ei chasglu.

2.14 Bydd gwybodaeth o'r fath a rennir yn cael ei rhannu â chyrff cyhoeddus a enwir at ddibenion cyfyngedig mewn perthynas â'u swyddogaethau. Er enghraifft, rhagwelir y bydd modd gofyn am wybodaeth am y Dreth Trafodiadau Tir a'i datgelu i brif gyngor mewn achosion a amheuir o efadu'r dreth gyngor neu ardrethi annomestig er mwyn helpu i ddod o hyd i berchennog eiddo a pharti atebol. At hynny, byddai rhannu cyfeiriadau trafodiadau eiddo diweddar fesul tranche â Llywodraeth Cymru neu brif

[16] Cyfarfod Llawn 01/07/2025 - Senedd Cymru ym mharagraff 671 Cyfnod 3 o'r Bil Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru)

gynghorau yn cynorthwyo ymchwil i bolisïau cenedlaethol a lleol mewn meysydd megis tai cymdeithasol a chynllunio.

2.15 Mae trefniadau rhannu gwybodaeth i gefnogi gwaith gweinyddu trethi rhwng adrannau yn bodoli ar y lefel genedlaethol rhwng ACC, CThEF a Revenue Scotland er mwyn cynorthwyo â gweithgarwch cydymffurfio. Hwylusir hyn drwy ddatgeliadau a ganiateir i rannu gwybodaeth yn adran 18 o'r Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi fel y manylir arno uchod. Byddai estyn datgeliadau a ganiateir i rannu gwybodaeth ar gyfer ACC er mwyn helpu ymdrechion cydymffurfio prif gynghorau yn cynnig y cam arloesol nesaf yn y ffordd y defnyddir data.

2.16 Un o adrannau anweinidogol Llywodraeth Cymru yw ACC, a hynny er mwyn sicrhau bod gwahanu digonol rhwng Gweinidogion Cymru a data sensitif trethdalwyr. Bydd y datgeliad a ganiateir arfaethedig i Lywodraeth Cymru wedi'i gyfyngu i aelodau penodol o Lywodraeth Cymru at ddibenion penodedig er mwyn sicrhau nad yw'r data hyn ar gael i Weinidogion Cymru. At hynny, mae'n hollbwysig sicrhau bod y data y mae ACC yn eu datgelu i brif gynghorau yn cael eu clustnodi a'u diogelu yn yr un modd fel mai dim ond swyddogion y mae angen y data arnynt i gyflawni swyddogaethau prif gyngor sy'n gallu cael mynediad at y data hyn. Felly, bydd angen inni ymgorffori mesurau diogelu digonol er mwyn sicrhau na all materion trethdalwyr ddod o fewn cyrraedd uniongyrchol aelodau etholedig prif gynghorau. Hoffem glywed safbwyntiau ymatebwyr ynglŷn â sut y gellid cyflawni hyn.

**a) A ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â diwygiad i'r Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi i ganiatáu i ACC rannu gwybodaeth warchodedig am drethdalwr â phrif gynghorau a Llywodraeth Cymru at ddibenion eu swyddogaethau?**

- Cytuno
- Anghytuno

**b) Pa fesurau diogelu sy'n angenrheidiol er mwyn diogelu gwybodaeth am drethdalwr yn eich barn chi?**

**c) Beth yw'r rhesymau dros eich ateb?**

## 3. Rhannu gwybodaeth warchodedig am drethdalwr â phrif gynghorau at ddibenion swyddogaethau ardoll ymwelwyr ACC

3.1 Mae adran 16 o'r Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi yn caniatáu i wybodaeth sy'n dod i law ACC, neu sefydliad y dirprwywyd swyddogaethau ACC iddo, gael ei

defnyddio gan ACC neu unrhyw sefydliad y dirprwywyd swyddogaethau iddo, mewn perthynas ag unrhyw un o swyddogaethau ACC.

3.2 Mae adran 17 yn gwahardd swyddog perthnasol (fel y'i diffiniwyd yn adran 17(2)) rhag datgelu gwybodaeth warchodedig am drethdalwr oni chaniateir ei datgelu'n benodol.

3.3 Diffinnir gwybodaeth warchodedig am drethdalwr fel gwybodaeth sy'n ymwneud â pherson (y "person a effeithir")—

*(a) a ddaeth i law ACC neu a ddaeth i law person y dirprwywyd unrhyw un neu ragor o swyddogaethau ACC iddo mewn cysylltiad â'r swyddogaethau hynny, a Rhannu gwybodaeth warchodedig am drethdalwr â phrif gynghorau at ddibenion swyddogaethau ardoll ymwelwyr*

*(b) y gellir adnabod y person a effeithir ohoni (boed oherwydd bod yr wybodaeth yn nodi pwy yw'r person a effeithir neu oherwydd y gellir casglu pwy ydyw ohoni).*

3.4 Gwnaeth Deddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025 ddiwygio'r Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi i gyflwyno porth gwybodaeth i ACC rannu gwybodaeth, os bydd hynny'n cael ei wneud at ddibenion swyddogaethau ACC.

*(1) Caniateir datgelu gwybodaeth warchodedig gan yr adran hon—*

*(za) os gwneir hynny at ddibenion swyddogaethau ACC, heblaw'r swyddogaethau a grybwyllir yn adran 12(2)(a) ac (e), a (3),*

Mae adran 12 yn manylu ar brif swyddogaethau ACC ac yn benodol yn darparu bod:

*(2) gan ACC y swyddogaethau penodol a ganlyn— […]*

*(e) darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth yn ymwneud â threthi datganoledig i brif gynghorau*

3.5 Mae hyn yn golygu nad yw'r porth i ACC rannu gwybodaeth am ei swyddogaethau a gyflwynir gan y Ddeddf Ardoll Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) yn gymwys pan fo'n ceisio rhannu gwybodaeth â phrif gyngor mewn perthynas â'r ardoll ymwelwyr.

3.6 Mae'r porth yn adran 18(1)(za) yn caniatáu i ACC ddatgelu gwybodaeth warchodedig am drethdalwr i brif gyngor yn ystod ymholiad i ffurflen Treth Trafodiadau Tir os datgelir yr wybodaeth at ddiben swyddogaethau ACC sy'n gysylltiedig â'r Dreth Trafodiadau Tir. Er enghraifft, gallai ACC ofyn i brif

gyngor a yw trethdalwr a enwyd yn dalwr ardrethi annomestig er mwyn helpu ACC i asesu a yw'r trethdalwr wedi talu'r swm cywir o Dreth Trafodiadau Tir.

3.7 Fodd bynnag, ni fyddai ACC yn gallu gofyn yr un cwestiwn mewn perthynas ag ymholiad i ardoll ymwelwyr am ei fod wedi'i wahardd rhag datgelu gwybodaeth warchodedig am drethdalwr sy'n ymwneud â'r ardoll ymwelwyr i brif gynghorau. Gallai hyn gael effaith ar y ffordd y mae ACC yn cyflwyno'r ardoll ymwelwyr, gan ei gwneud yn fwy anodd datrys achosion mewn modd amserol.

3.8 **Rydym yn cynnig y dylid diwygio'r Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi i godi'r gwaharddiad ar ddatgelu gwybodaeth warchodedig am drethdalwr mewn perthynas â'r ardoll ymwelwyr i brif gynghorau.**

3.9 Bydd y newid hwn yn effeithio ar drethdalwyr yr ardoll ymwelwyr, ond ei ddiben yw eu rhoi yn yr un sefyllfa â threthdalwyr trethi datganoledig. Gan nad yw'r ardoll ymwelwyr wedi cael ei rhoi ar waith eto, ni fydd trethdalwyr yr ardoll ymwelwyr yn gweld unrhyw newid. Bydd y newid hwn yn sicrhau bod cysondeb yn y cod treth gan y bydd pob trethdalwr, p'un a yw'n talu treth ddatganoledig neu'r ardoll ymwelwyr yn cael ei drin yn yr un modd. Bydd hefyd yn helpu ACC i weinyddu'r ardoll ymwelwyr yn fwy effeithlon.

3.10 Un o adrannau anweinidogol Llywodraeth Cymru yw ACC, a hynny er mwyn sicrhau bod gwahanu digonol rhwng aelodau etholedig a data sensitif trethdalwyr. Mae'n hollbwysig sicrhau bod y data y mae ACC yn eu datgelu i brif gynghorau yn cael eu clustnodi a'u diogelu yn yr un modd fel mai dim ond swyddogion y mae angen y data arnynt i gyflawni swyddogaethau prif gyngor sy'n gallu cael mynediad at y data hyn. Felly, bydd angen inni ymgorffori mesurau diogelu digonol er mwyn sicrhau na all materion trethdalwyr ddod o fewn cyrraedd uniongyrchol aelodau etholedig prif gynghorau. Hoffem glywed safbwyntiau ymatebwyr ynglŷn â sut y gellid cyflawni hyn.

**a) A ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â diwygio'r Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi i ganiatáu i ACC rannu gwybodaeth warchodedig am drethdalwr â phrif gynghorau at ddibenion swyddogaethau ardoll ymwelwyr ACC?**

- Cytuno
- Anghytuno

**b) A ydych chi'n credu bod angen rhoi unrhyw fesurau ychwanegol i ddiogelu trethdalwyr ar waith?**

**c) Beth yw'r rhesymau dros eich ateb?**

## 4. Cadw ad-daliadau yn ôl yn ystod ymholiad

4.1 Mae Rhan 3[18] o'r Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi yn nodi trefniadau ACC i gadarnhau rhwymedigaeth trethdalwr i dalu treth a gesglir gan ACC ac yn darparu ar gyfer agor ymholiad, a gwneud dyfarniad neu asesiad gan ACC. Bwriedir i'r dyletswyddau a'r pwerau yn y rhan hon o'r Ddeddf wneud i'r system dreth weithio'n effeithiol ac maent yn darparu'r adnoddau i ACC sicrhau bod trethdalwyr yn cydymffurfio â'u dyletswyddau.

4.2 Yn benodol, mae adran 40[19] yn rhoi'r diffiniad o'r "dyddiad ffeilio", sef y dyddiad erbyn pryd y mae'n ofynnol dychwelyd ffurflen ar gyfer treth a gesglir gan ACC. Mae deddfwriaeth ynglŷn â'r trethi datganoledig penodol yn gwneud darpariaethau ynghylch beth yw'r dyddiad hwnnw o dan amgylchiadau penodol.

4.3 Mae adran 41[20] yn darparu y caiff person sydd wedi dychwelyd ffurflen dreth ei diwygio ac yn nodi sut a phryd y gellir gwneud hyn. Mae'n rhaid i berson sy'n diwygio ffurflen dreth wneud hynny o fewn 12 mis i'r dyddiad ffeilio neu erbyn unrhyw ddyddiad arall y mae Gweinidogion Cymru wedi'i ragnodi drwy reoliadau.

4.4 Trethi a hunanasesir yw'r Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi (gweler adran 44 o Ddeddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017[21] ac adran 39 o'r Ddeddf Treth Gwarediadau Tirlenwi[22]). Pan fo trethdalwr yn gofyn am ad-daliad drwy ddiwygio ei ffurflen dreth, mae'n cael ei brosesu'n awtomatig.

4.5 Mae achosion wedi codi lle yr ymddangosai y byddai'n ddoeth i ACC gadw ad-daliad yn ôl tra bydd yn cynnal ymholiad i ddiwygiad i ffurflen gan drethdalwr nes y bydd yr ymholiad hwnnw wedi cael ei gau. Er enghraifft, pan fydd ffurflen yn cael ei diwygio, a'i hadolygu gan swyddog achosion sy'n nodi bod risg uchel ei bod yn anghywir.

4.6 Er bod llawer o drethdalwyr yn fodlon ar y gwasanaeth a ddarperir iddynt ac yn deall egwyddor "prosesu'n gyntaf, gwirio wedyn" mewn perthynas â threthi a hunanasesir, mae ACC yn ymwybodol o anfodlonrwydd ymhlith rhai trethdalwyr pan fo ACC yn cynnal ymholiad i ddiwygiadau trethdalwyr i ffurflenni treth. O dan y broses bresennol pan fydd y trethdalwr yn diwygio ei ffurflen, gwneir ad-daliad yn awtomatig hyd yn oed pan fydd ACC o'r farn bod risg bod yr hawliad yn anghywir neu'n annilys. Gellir holi ynghylch hyn yn

---

[18] https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/6/part/3
[19] https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/6/section/40
[20] https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/6/section/41
[21] https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2017/1/section/44
[22] https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2017/3/section/39

ddiweddarach a phan fydd ACC yn anghytuno â'r diwygiad, bydd yn adennill y dreth a gollwyd a'r llog taliadau hwyr oddi wrth y trethdalwr. Mae adborth trethdalwyr yn nodi y gellid atal gorfodi llog taliadau hwyr pe bai ACC yn cadw'r dreth a dalwyd nes bod yr ymholiad wedi dod i ben.

4.7 **Rydym yn cynnig y dylid diwygio'r Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi i roi pŵer i ACC gadw ad-daliadau yn ôl tra bydd yn cynnal ymholiad at ddibenion y Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi. Rydym hefyd yn cynnig y dylid mewnosod pŵer i wneud rheoliadau er mwyn caniatáu i Weinidogion estyn y darpariaethau hyn i fod yn gymwys i'r Ardoll Ymwelwyr pe bai'r angen yn codi.**

4.8 Bwriad y newid hwn yw helpu trethdalwyr i gydymffurfio â'r gyfraith mewn ffordd mor syml â phosibl a gyda chyn lleied o gostau â phosibl. Mae ACC yn ymrwymedig i weithio gyda threthdalwyr, cynrychiolwyr, partneriaid a'r cyhoedd i ddarparu system dreth deg yng Nghymru. Bydd y newid hwn yn ymdrin â phryderon trethdalwyr ynghylch achosion pan fydd eu harian yn cael ei ad-dalu ac yna'i ailgodi, â llog. Bydd hefyd yn ymdrin ag anawsterau casglu a all godi i ACC wrth geisio dychwelyd treth a ad-dalwyd yn flaenorol o dan y dull "prosesu'n gyntaf a gwirio wedyn".

4.9 Pan fo ACC yn penderfynu cadw ad-daliad yn ôl rydym yn cynnig y bydd hyn yn benderfyniad apeladwy, sy'n golygu y byddai'r trethdalwr yn gallu gofyn am adolygiad neu apêl i'r tribiwnlys.

4.10 Mae gan drethdalwyr yr hawl eisoes i wneud cais i'r tribiwnlys i gau ymholiad (adran 51 o'r Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi[23]). Byddai gwneud penderfyniad gan ACC i gadw ad-daliad yn ôl yn un apeladwy yn rhoi mesur diogelu ychwanegol i drethdalwyr.

4.11 Wrth gwrs, ceir risg y bydd y newid hwn yn effeithio ar drethdalwyr sy'n gwneud diwygiadau cywir os bydd ACC o'r farn, ar gam, fod diwygiad yn un risg uchel ac yn penderfynu cadw'r ad-daliad yn ôl o ganlyniad i hynny nes bod ymholiad wedi dod i ben. Fodd bynnag, bydd llog ad-daliad yn cronni ar unrhyw ad-daliad a delir iddynt ac mae ganddynt yr hawl i apelio i'r tribiwnlys i herio'r penderfyniad i gadw'r ad-daliad yn ôl.

4.12 Rydym yn ymwybodol bod ACC eisoes yn gofyn i drethdalwyr a ydynt am iddo gadw'r arian fel taliad ar eu cyfrif, yn hytrach na'i ad-dalu ar unwaith. Fodd bynnag, mewn rhai achosion mae trethdalwyr yn diwygio eu ffurflen gan wybod ei bod yn annhebygol iawn y bydd y diwygiadau hynny yn gywir neu gan wybod eu bod yn anwir. Yn yr achosion hyn, byddai pŵer i gadw ad-

[23] https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/6/section/51

daliad yn ôl yn caniatáu i ACC ddiogelu'r refeniw, yn enwedig os oes risg y gall fod yn anodd adennill y dreth yn ddiweddarach.

4.13 Wrth ystyried y mater hwn, nid ydym wedi llwyddo i nodi unrhyw atebion posibl eraill nad ydynt yn amharu ar y cysyniad o natur hunanasesu'r trethi datganoledig ond sy'n caniatáu inni daro'r cydbwysedd cywir i ddiogelu refeniw Llywodraeth Cymru a'r trethdalwyr rhag hawlio ad-daliad a fydd, yn debygol iawn, yn ad-daladwy i ACC. Hoffem glywed am unrhyw atebion eraill rydych o bosibl yn ymwybodol ohonynt.

**a) A ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â diwygio'r Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi i roi'r pŵer i ACC gadw ad-daliadau yn ôl tra bydd yn cynnal ymholiad?**

- Cytuno
- Anghytuno

**b) A ydych chi'n cytuno y dylai penderfyniad i gadw ad-daliad yn ôl fod yn un apeladwy?**

- Cytuno
- Anghytuno

**c) A fyddai unrhyw fesurau ychwanegol i ddiogelu trethdalwyr yn fuddiol ar y cyd â'r pŵer hwn?**

**d) A ydych chi'n credu y dylai fod terfyn amser ar faint o amser y bydd gan ACC i benderfynu a ddylid ad-dalu neu agor ymholiad, ar ôl i drethdalwr gyflwyno diwygiad iddo?**

**e) Beth yw'r rhesymau dros eich ateb?**

## 5. Hawliadau ar gyfer rhyddhad gordaliad

5.1 Mae adran 30[24] o Ddeddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 yn cyflwyno Atodlenni 9 – 22 sy'n gwneud darpariaeth ynglŷn â rhyddhadau y gellir eu hawlio mewn perthynas â thrafodiadau penodol y codir treth trafodiadau tir arnynt fel arfer. Mae'r adran wedi'i rhannu'n rhyddhadau sy'n darparu rhyddhad o 100% rhag codi'r Dreth Trafodiadau Tir ac yn rhyddhadau lle y rhoddir rhyddhad rhannol neu lle y

[24] https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2017/1/section/30

rhoddir y rhyddhad drwy gyfrifo'r Dreth Trafodiadau Tir gan ddefnyddio dull gwahanol neu ar gyfradd wahanol i'r hyn sy'n gymwys fel arfer. Ni chaiff rhyddhadau eu cymhwyso'n awtomatig ond mae'n rhaid iddynt gael eu hawlio drwy ffurflen dreth neu ddiwygiad i ffurflen dreth o'r fath (ac eithrio mewn perthynas â lluoedd sy'n ymweld a rhyddhad pencadlysoedd milwrol rhyngwladol). Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, ychwanegu, addasu neu ddiddymu rhyddhadau a chânt hefyd ddiwygio adran 31[25].

5.2 Mae adran 30 yn rhannu'r rhyddhadau yn dri chategori:

- Mae adran 30(1) yn rhoi rhestr o Atodlenni sy'n gwneud darpariaeth ynglŷn â rhyddhadau a darpariaethau eraill sy'n gysylltiedig â'r rhyddhadau hynny

- Mae adran 30(2) yn rhoi rhestr o ddarpariaethau'r Ddeddf sy'n rhoi rhyddhad rhag treth ar gyfer trafodiadau tir penodol (ac felly os hawlir rhyddhad nid yw trafodiadau o'r fath yn drafodiadau trethadwy)

- Mae adran 30(3) yn rhoi rhestr o ddarpariaethau'r Ddeddf sy'n rhoi rhyddhad i drafodiadau trethadwy penodol yn y modd a bennir yn y ddarpariaeth berthnasol

- Mae adran 30(4) yn nodi bod yn rhaid hawlio unrhyw ryddhad o dan unrhyw un o'r darpariaethau a grybwyllir yn is-adrannau (2) a (3) (ac eithrio rhyddhad o dan baragraff 3 o Atodlen 22 (rhyddhad lluoedd sy'n ymweld a rhyddhad pencadlysoedd milwrol rhyngwladol)) ar y ffurflen dreth gyntaf a ddychwelir mewn perthynas â'r trafodiad tir, neu mewn diwygiad i'r ffurflen honno.

5.3 Mae adran 26[26] o Ddeddf Treth Gwarediadau Tirlenwi 2017 yn cyflwyno'r bennod ar ryddhadau ac yn nodi'r rheolau cyffredinol canlynol: mae rhyddhadau ond yn gymwys mewn perthynas â gwarediadau mewn safleoedd tirlenwi awdurdodedig (felly nid ydynt yn gymwys mewn perthynas â gwarediadau anawdurdodedig); pan fydd rhyddhad yn gymwys, ni chodir treth; ac mae'n rhaid hawlio rhyddhad rhag treth mewn ffurflen dreth.

5.4 Mae ACC yn dehongli'r darpariaethau hyn i olygu bod yn rhaid hawlio rhyddhad a restrir yn adran 30(1) o Ddeddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 a rhyddhadau a geir yn Neddf Treth Gwarediadau Tirlenwi 2017 yn y ffurflen dreth gyntaf neu mewn diwygiad i'r ffurflen dreth honno ac ni allant fod yn destun hawliad

---

[25] https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2017/1/section/31
[26] https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2017/3/section/26

llwyddiannus am dreth wedi'i gordalu o dan adran 63[27] o'r Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi os methwyd â gwneud hynny.

5.5 Pan fo trethdalwr yn gwneud hawliad am dreth wedi'i gordalu am ei fod wedi methu â hawlio'r rhyddhad yn ei ffurflen dreth gyntaf neu mewn diwygiad iddi, mae ACC yn dibynnu ar adran 67[28] o'r Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (achos 1) i wrthod yr hawliadau.

5.6 Er mwyn prosesu'r hawliadau nad oes angen i ACC roi effaith iddynt o dan achos 1 o adran 67 o'r Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi, mae ACC, yn ymarferol, wedi bod yn agor ymholiadau i wrthod yr hawliad. Nid yw hyn yn ofynnol yn benodol o dan y ddeddfwriaeth, ond mae'r dull yn cael ei fabwysiadu i atal anghydfodau diweddarach ynghylch a ddylai ymholiad fod wedi cael ei agor. Mae'r broses hon yn aneffeithlon ac mae'n gosod baich ar ACC a threthdalwyr fel ei gilydd.

5.7 **Rydym yn cynnig y dylid diwygio'r Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi i roi eglurder nad oes angen i ACC agor ymholiad i wrthod hawliad o dan adran 67 o'r Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi.**

5.8 Rydym am sicrhau nad yw newid o'r fath yn amharu ar fesurau sy'n diogelu trethdalwyr. Felly, bydd penderfyniad ACC i wrthod derbyn hawliad rhyddhad gordaliad gan drethdalwr yn un apeladwy ac mae geiriad presennol adran 172 o'r Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi eisoes yn darparu ar gyfer hyn[29]. Mae hyn yn golygu bod y mesurau sy'n diogelu trethdalwyr yn aros, ond bydd y baich gweinyddol ar drethdalwyr, eu cynghorwyr ac ACC yn cael ei godi o wneud y ddeddfwriaeth yn fwy eglur.

5.9 Byddai'r newid hwn yn ein helpu i gyflawni un o'n hegwyddorion polisi treth, sef gwneud deddfwriaeth ynglŷn â threth yn glir, yn sefydlog ac yn syml.

**a) A ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylid gwneud y Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi yn fwy eglur er mwyn sicrhau nad oes angen i ACC agor ymholiad i wrthod hawliad pan fydd adran 67 yn gymwys?**

- Cytuno
- Anghytuno

**b) Beth yw'r rhesymau dros eich ateb?**

[27] https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/6/section/63
[28] https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/6/section/67
[29] https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/6/section/172

## 6. Hysbysiadau gwybodaeth i gadarnhau a yw rhyddhad wedi cael ei dynnu'n ôl

6.1 Mae rhai rhyddhadau yn Neddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 yn cynnwys darpariaeth y bydd digwyddiadau penodol ar ôl dyddiad gweithredol y trafodiad yn sbardun i dynnu'r rhyddhad hwnnw yn ôl.

Enghraifft

6.2 Gwnaeth Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Rhyddhad ar gyfer Safleoedd Treth Arbennig) (Cymru) 2024 ddiwygio Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 i fewnosod Atodlen 21A newydd[30] (rhyddhad ar gyfer safleoedd treth arbennig) a ddarparodd ar gyfer rhyddhad rhag y dreth trafodiadau tir i drafodiadau tir cymhwysol o fewn safle treth arbennig.

- Caiff rhyddhad ei dynnu'n ôl os na ddefnyddir y tir cymhwysol mewn modd cymhwysol yn unig yn ystod y cyfnod rheoli.
- Mae'r cyfnod rheoli yn dechrau ar ddyddiad gweithredol y trafodiad yr hawlir rhyddhad safle treth arbennig ar ei gyfer.
- Daw'r cyfnod rheoli ar gyfer y trafodiad hwnnw i ben naill ai:
    - ar ôl y cyfnod o 3 blynedd yn dechrau â dyddiad gweithredol y trafodiad.
    - neu, ar ddyddiad gweithredol y trafodiad terfynol os bydd hyn yn digwydd cyn diwedd y cyfnod o 3 blynedd.

6.3 Mae'n weithdrefnol anodd i ACC wybod a yw rhyddhad wedi'i dynnu'n ôl. Yn ymarferol, yn aml, caiff ffurflen ei ffeilio yn hawlio'r rhyddhad, ac yn aml ni fydd gwybodaeth bellach yn dilyn. Er y gall ACC agor ymholiad, rhaid iddo wneud hynny o fewn 12 mis i'r dyddiad ffeilio ar gyfer y ffurflen, neu'r dyddiad gwirioneddol y ffeiliwyd y ffurflen, pa un bynnag sydd ddiweddaraf. Mae'n bosibl na fydd gan ACC unrhyw achos dros agor ymholiad o fewn y terfyn amser hwnnw neu mae'n bosibl na chaiff y rhyddhad ei dynnu'n ôl tan ar ôl y cyfnod hwnnw o 12 mis.

[30] https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2017/1/schedule/21A

6.4 Gall ACC gynnal asesiad o dan adran 54[31] o'r Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi ar ôl i gyfnod yr ymholiad gau. Fodd bynnag, mae'n bosibl na fydd ACC wedi cael digon o wybodaeth i allu cynnal asesiad o'r fath.

6.5 Felly, efallai y bydd angen i ACC roi hysbysiad gwybodaeth i drethdalwr er mwyn casglu gwybodaeth i gael gwybod a yw rhyddhad wedi cael ei dynnu'n ôl. Fodd bynnag, o dan adran 100[32] o'r Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi, pan fydd ffurflen dreth wedi'i dychwelyd dim ond o dan yr amgylchiadau canlynol y gellir rhoi hysbysiad gwybodaeth:

- yn ystod ymholiad neu
- pan fydd rheswm dros amau bod treth wedi cael ei cholli (a all fod yn anodd i'w gadarnhau os mai gwybodaeth gyfyngedig sydd gan ACC).

6.6 Yn ymarferol, mae hyn yn atal rhyddhadau sy'n cynnwys darpariaeth tynnu'n ôl rhag cael eu gweinyddu'n briodol.

6.7 **Rydym yn cynnig y dylid diwygio'r Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi i gynnwys darpariaeth i ganiatáu i ACC roi hysbysiad gwybodaeth i gasglu gwybodaeth i gadarnhau a yw'r amodau ar gyfer tynnu rhyddhad yn ôl wedi cael eu bodloni.**

6.8 Cynigir y dylid rhoi'r un mesurau diogelu i hysbysiadau gwybodaeth o'r fath ag a roddir i hysbysiadau gwybodaeth yn y Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi, sef yn unol ag adran 172(2) y dylai fod yn benderfyniad adolygadwy ac yn benderfyniad y gellir apelio i'r tribiwnlys yn ei erbyn.

6.9 Gwnaeth y Ddeddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) ddiwygio'r Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi o ran paragraff 36 o Atodlen 2 Rhan 2 er mwyn caniatáu i ACC, yn ddarostyngedig i gydymffurfio ag adran 97 o'r Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi, roi hysbysiadau i drethdalwyr heb gymeradwyaeth gan y tribiwnlys. Cynigir y dylai hysbysiadau gwybodaeth a gynigir i gadarnhau a yw rhyddhad wedi cael ei dynnu'n ôl fod yn rhwym wrth yr un rheolau a mesurau diogelu i drethdalwyr.

6.10 Mae eisoes gan CThEF bŵer tebyg[33]. Bydd y dull gweithredu hwn yn ein helpu i sicrhau bod y dreth gywir yn cael ei thalu ac i ddiogelu'r refeniw. Ni ddisgwylir iddo gael effaith eang ar drethdalwyr, a byddwn yn sicrhau bod mesurau i ddiogelu trethdalwyr drwy wneud yr hysbysiad gwybodaeth yn apeladwy. Hefyd, ni fydd modd rhoi hysbysiad trethdalwr a roddir i gadarnhau

31 https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/6/section/54
32 https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/6/section/100
33 https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2008/9/schedule/36/paragraph/21A

a yw’r amodau ar gyfer tynnu’r rhyddhad yn ôl wedi’u bodloni yn hwyrach na 4 blynedd ar ôl dyddiad gweithredol y trafodiad.

a) **A ydych chi’n cytuno neu’n anghytuno â diwygio’r Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi i roi pŵer i ACC allu rhoi hysbysiad gwybodaeth i gasglu gwybodaeth i gadarnhau a yw’r amodau ar gyfer tynnu rhyddhad yn ôl wedi’u bodloni?**

- Cytuno
- Anghytuno

b) **Beth yw’r rhesymau dros eich ateb?**

## 7. Pwerau Archwilio

7.1 Mae adran 103[34] o’r Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi yn darparu y gall ACC fynd i fangre busnes ac archwilio’r fangre (gan gynnwys asedau a dogfennau’r busnes sydd yn y fangre) er mwyn gwirio sefyllfa dreth person. Dim ond gyda chytundeb meddiannydd y fangre neu gyda chymeradwyaeth y tribiwnlys y gall archwiliad o’r fath gael ei gynnal.

7.2 Mae is-adran (3)[35] yn darparu ar gyfer dyddiad ac amser archwiliad, sy’n caniatáu i ACC gynnal archwiliad ar adeg y cytunir arni â’r meddiannydd neu os yw’r archwiliad wedi cael ei gymeradwyo gan y tribiwnlys, mae’n rhaid i ACC hysbysu’r trethdalwr saith diwrnod cyn y bwriedir ei gynnal, oni bai bod y tribiwnlys wedi’i fodloni y byddai rhoi hysbysiad o’r fath yn niweidio’r gwaith o asesu neu gasglu treth yn ddifrifol.

7.3 Os bydd y tribiwnlys yn cymeradwyo archwiliad, mae’n rhaid i’r hysbysiad a roddir i’r meddiannydd nodi hynny’n glir. Mae’r gofyniad hwn yn berthnasol oherwydd dim ond os gwrthodir mynediad y bydd person yn agored i gosb (Pennod 5 o Ran 5[36]) pan fo’r archwiliad wedi cael ei gymeradwyo gan y tribiwnlys.

7.4 Ni chaniateir i ACC fynd i unrhyw ran o fangre a ddefnyddir fel annedd yn unig na’i harchwilio. Nid oes unrhyw gynigion i newid yr hawliau pwysig hyn.

---

[34] https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2008/9/schedule/36/paragraph/21A
[35] https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/6/section/103/3
[36] https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/6/part/5/chapter/5

7.5 Mae'n rhaid i unrhyw ymweliad dirybudd gan ACC geisio cymeradwyaeth y tribiwnlys, ond mae'r amser a'r adnoddau sydd eu hangen i gael y gymeradwyaeth honno yn amharu ar allu ACC i weithredu'n gyflym i archwilio mangre. Mae hyn yn arbennig o berthnasol mewn achosion sy'n ymwneud â'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi lle ceir achosion posibl o efadu treth, pan fydd angen i ACC archwilio mangre yn ddi-oed er mwyn cadarnhau a oes unrhyw dreth yn ddyledus a thrwy hynny ddiogelu refeniw. Byddai diwygio pŵer archwilio ACC i'w alluogi i archwilio mangreoedd heb ganiatâd ymlaen llaw'r tribiwnlys yn hwyluso ymchwiliadau o'r fath. Byddai'r newid hwn hefyd yn sicrhau bod pwerau archwilio ACC yn debycach i rai CThEF[37], sydd eisoes yn gallu cynnal archwiliadau heb gymeradwyaeth ymlaen llawn gan y tribiwnlys. Felly, dim ond i'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi y byddai'r newid arfaethedig hwn yn gymwys.

7.6 **Rydym yn cynnig y dylid diwygio adran 103 o'r Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi i ganiatáu i ACC gynnal archwiliadau heb geisio cymeradwyaeth y tribiwnlys na'r trethdalwr. Rydym hefyd yn cynnig y llwybr ychwanegol hwn i ACC gynnal archwiliadau drwy ddilyn rheolau sy'n debyg i baragraff 12 o Atodlen 36 i Ddeddf Cyllid 2008; sef bod meddiannydd y fangre wedi cael rhybudd o 7 diwrnod o leiaf o ba bryd y caiff yr archwiliad ei gynnal, oni bai bod un o bwyllgorau ACC wedi'i fodloni y byddai hysbysu'r meddiannydd yn niweidio'n ddifrifol y gwaith o asesu neu gasglu'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi. Os felly, gellir rhoi hysbysiad cydamserol.**

7.7 Yr un fydd y prawf y byddai angen i ACC ei fodloni i gynnal ymweliad dirybudd â'r prawf a geir o dan bwerau presennol fel y'u nodwyd yn y Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi, sef, bod yn rhaid bod seiliau dros gredu bod angen archwilio mangre busnes person at ddibenion gwirio ffurflen dreth y person.

7.8 Ni fydd y pŵer arfaethedig i gynnal ymweliad dirybudd yn estyn i anheddau preifat a bydd wedi'i gyfyngu i fangreoedd busnesau.

7.9 Ar ddechrau'r ymweliad byddai ACC yn cyflwyno hysbysiad i'r trethdalwr sy'n nodi'n glir ddiben yr ymweliad a'i hawliau.

7.10 Ni fyddai'r newid hwn yn effeithio ar fesurau i ddiogelu trethdalwyr sy'n caniatáu iddynt ofyn am adolygiad o benderfyniad ACC i gynnal archwiliad, a byddai'r gallu i apelio i'r tribiwnlys yn ei erbyn yn cael ei gadw. Unwaith eto, mae hyn yn unol â phwerau cymaradwy CThEF.

7.11 Gallai trethdalwr wrthod mynediad i aelodau o staff ACC os nad yw ACC wedi ceisio caniatâd ymlaen llaw gan y tribiwnlys ar gyfer yr ymweliad. Mewn

[37] https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2008/9/schedule/36

sefyllfa o’r fath, byddai angen wedyn i ACC geisio cymeradwyaeth y tribiwnlys ar gyfer yr ymweliad.

7.12 Os nad yw ACC wedi ceisio cymeradwyaeth ymlaen llaw gan y tribiwnlys ar gyfer yr ymweliad a bod y trethdalwr yn gwrthod mynediad, yna ni fyddai’r trethdalwr yn wynebu unrhyw gosbau.

**a) A ydych chi’n cytuno neu’n anghytuno â diwygio’r Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi i ganiatáu i ACC gynnal ymweliadau dirybudd at ddibenion y Dreth Gwarediadau Tirlenwi heb gymeradwyaeth y tribiwnlys na’r trethdalwr?**

- Cytuno
- Anghytuno

**b) A oes unrhyw fesurau ychwanegol i ddiogelu trethdalwyr y dylid eu cynnwys yn eich barn chi?**

**c) Beth yw’r rhesymau dros eich ateb?**

## 8. Pŵer i ddiwygio symiau cosbau penodedig

8.1 Mae Deddf Casglu a Rheoli Trethi 2016 yn pennu cosbau penodedig amrywiol am fethiant i ffeilio ffurflen dreth yn brydlon.

8.2 Mae adran 118[38] yn darparu mai swm y gosb i berson sy’n methu â dychwelyd ffurflen dreth ar y dyddiad ffeilio neu cyn hynny (fel y’i diffiniwyd gan adran 40) yw £100.

8.3 Mae adran 119[39] yn darparu mai swm y gosb i berson y mae ei fethiant i ddychwelyd ffurflen dreth yn parhau ar ôl cyfnod o 6 mis ar ôl y dyddiad ffeilio yw’r mwyaf o 5% o swm y dreth ddatganoledig sy’n ddyledus a £300.

8.4 Mae adran 120[40] yn darparu ar gyfer cosb bellach os yw’r methiant i ddychwelyd ffurflen dreth yn parhau am fwy na 12 mis ar ôl y dyddiad ffeilio. O dan yr amgylchiadau hyn, y gosb yw’r mwyaf o 5% o swm y dreth ddatganoledig sy’n ddyledus a £300. Os bydd y person, drwy fethu â dychwelyd y ffurflen dreth, yn atal yn fwriadol wybodaeth a fyddai’n galluogi neu’n cynorthwyo ACC i asesu rhwymedigaeth y person, mae is-adran (2) yn

[38] https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/6/section/118
[39] https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/6/section/119
[40] https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/6/section/120

darparu ar gyfer cosb gynyddol, sef y mwyaf o 100% o'r dreth ddatganoledig sy'n ddyledus a £300.

8.5 Unig ddiben y gyfundrefn gosbau yw hyrwyddo cydymffurfedd ac atal achosion o ddiffyg cydymffurfiaeth.

8.6 Pennwyd symiau'r cosbau penodedig yn y Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi yn 2016 ond, mewn gwirionedd, maent yn rhagflaenu hyn am iddynt gael eu hetifeddu o ddeddfwriaeth gyfatebol mewn perthynas â CThEF. Mae hyn yn golygu nad ydynt yn cyfrif am chwyddiant na newidiadau economaidd ers dros 20 mlynedd. Mae hyn mewn gwrthgyferbyniad â chosbau cymesur â'r dreth sy'n seiliedig ar ganran o swm y dreth sy'n ddyledus.

8.7 Yn achos y Dreth Trafodiadau Tir lle y cyfrifir y dreth yn seiliedig ar swm y gydnabyddiaeth a dalwyd am yr eiddo, bydd y gosb gymesur â'r dreth, yn y pen draw, yn adlewyrchu'r amodau economaidd ar ddyddiad gweithredol y trafodiad. Yn achos y Dreth Gwarediadau Tirlenwi lle y cyfrifir y gyfradd dreth yn gymesur â'r chwyddiant a ragwelir fel arfer, bydd cosbau ar sail y dreth hefyd yn adlewyrchu'r amodau economaidd ehangach ar adeg dychwelyd y ffurflen dreth.

8.8 Felly, mae'r bwlch o ran y gost economaidd rhwng y cosbau penodedig a'r cosbau cymesur â'r dreth yn parhau i gynyddu. Mae'n bosibl y bydd hyn yn lleihau effaith ymddygiadol cosbau penodedig, sy'n golygu bod llai o gymhelliant i drethdalwr gydymffurfio'n llawn â'i rwymedigaethau. Pe bai'r cosbau o £100 wedi cynyddu yn unol â'r MPD ers cyflwyno Treth Dir y Dreth Stamp yn 2003, byddent yn £182 erbyn mis Ebrill 2025.

8.9 Ar hyn o bryd, dim ond drwy ddeddfwriaeth sylfaenol y gellir amrywio symiau cosbau penodedig.

8.10 **Rydym yn cynnig y dylid mewnosod pŵer i wneud rheoliadau er mwyn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio cosbau penodedig y Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi. Byddai hyn yn caniatáu i Weinidogion Cymru gynyddu neu leihau symiau cosbau penodedig.**

8.11 Gan mai pŵer i wneud rheoliadau fyddai hwn, ni fydd cyfraddau cosbau yn newid ar unwaith a llywodraeth yn y dyfodol fydd yn ystyried a yw am newid cyfraddau cosbau. Byddai angen i lywodraeth yn y dyfodol gynnal archwiliad ehangach o effeithiolrwydd y gyfundrefn gosbau, cyn cyflwyno diwygiadau i werth y cosbau ar ôl craffu ar y polisi yn seiliedig ar dystiolaeth.

8.12 Ni fydd y pŵer hwn i wneud rheoliadau yn effeithio ar y mesurau presennol i ddiogelu trethdalwyr o ran lleihau cosbau am wneud datgeliad, esgus rhesymol ac amgylchiadau arbennig.

**a) A ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â mewnosod pŵer i wneud rheoliadau i ganiatáu i Weinidogion Cymru amrywio swm cosbau penodedig?**

- Cytuno
- Anghytuno

**b) Beth yw'r rhesymau dros eich ateb?**

## 9. Cynyddu llog taliadau hwyr

9.1 Mae adran 163[41] o'r Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru bennu cyfraddau llog taliadau hwyr a llog ad-daliadau sydd i'w dalu. Gellir pennu cyfraddau gwahanol at ddibenion gwahanol. Nid cosb na sancsiwn yw codi llog; codir llog i ddigolledu am golli'r defnydd o arian.

9.2 Pennir cyfradd bresennol llog taliadau hwyr ar Gyfradd Sylfaenol Banc Lloegr a 2.5%. Dyma'r un gyfradd llog a godwyd gan CThEF ac roedd yn sicrhau cysondeb ledled y DU.

9.3 Mae CThEF wedi cynyddu'r gyfradd llog taliadau hwyr a godir am rwymedigaethau treth heb eu talu 1.5 pwynt canrannol o 6 Ebrill 2025. Mae hyn yn golygu bod CThEF yn codi cyfradd llog o 4% ar ben cyfradd sylfaenol Banc Lloegr.

9.4 Mae hyn yn creu risg y bydd trethdalwyr y mae arnynt symiau i CThEF ac ACC yn cael eu cymell i dalu'r ddyled i CThEF yn gyntaf am fod ein cyfraddau llog yn is.

9.5 **Rydym yn cynnig y dylid cynyddu'r gyfradd llog a godir ar log taliadau hwyr i gyd-fynd â'r llog a godir gan CThEF, sef 4% ar ben cyfradd sylfaenol Banc Lloegr.**

9.6 Er y gellir gwneud y newid hwn drwy reoliadau, rydym yn bwriadu manteisio ar y cyfle hwn i wneud yr holl newidiadau yr ymgynghorir arnynt yn y papur hwn drwy'r Bil Cynhaliaeth Trethiant. Llywodraeth nesaf Cymru fydd yn gyfrifol am y penderfyniad i gyflwyno'r Bil hwnnw a gwneud y newid hwn drwy'r bil yn hytrach na thrwy reoliadau.

[41] https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/6/section/163

9.7 Byddai cynyddu'r llog a godir ar daliadau hwyr yn hyrwyddo cysondeb drwy system dreth y DU gyfan, yn cyd-fynd â llawer o gymharwyr G7 ac yn gymaradwy â chyfraddau masnachol. Bwriad polisi'r newid hwn yw sicrhau bod dyledion ACC yn cael eu trin gan drethdalwyr yn yr un ffordd â dyledion CThEF.

**a) A ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â chynyddu swm y llog ar godir ar daliadau hwyr i 4% ar ben cyfradd sylfaenol Banc Lloegr?**

- Cytuno
- Anghytuno

**b) Beth yw'r rhesymau dros eich ateb?**

### 10. Ailgyfrifo symiau llog ar ôl diwygiad

10.1 Mae adran 157[42] ac adran 157A[43] o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi 2016 yn darparu bod llog yn daladwy gan berson ar rwymedigaethau treth a gesglir gan ACC a chosbau cysylltiedig nad ydynt yn cael eu talu cyn dyddiad dechrau'r llog taliadau hwyr. Codir llog o ddyddiad dechrau'r llog taliadau hwyr hyd nes y caiff y dreth neu'r gosb ei thalu. Mae is-adran (3) yn nodi, mewn achos arferol, mai dyddiad dechrau'r llog taliadau hwyr fel arfer yw'r diwrnod ar ôl dyddiad ffeilio'r ffurflen dreth.

10.2 Mae'r Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi yn darparu bod yn rhaid i log taliadau hwyr gael ei gyfrifo ar swm y dreth a nodwyd ar y ffurflen dreth wreiddiol a ddychwelwyd. Mae adran 157(1)(b) o'r Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi yn darparu, os bydd trethdalwr yn diwygio ei ffurflen dreth a bod ei rwymedigaeth i dalu treth yn cynyddu, yna y dylai hyn gael ei adlewyrchu yn swm y llog sy'n ddyledus ganddo. Nid oes unrhyw ddarpariaeth debyg os bydd trethdalwr yn diwygio ei ffurflen dreth ac yn lleihau ei rwymedigaeth i dalu treth. Yn unol â hynny, mae'n bosibl y bydd trethdalwr yn talu mwy o log mewn perthynas â'r dreth nag sy'n briodol ddyledus.

10.3 Mae darpariaeth ddeddfwriaethol gyfatebol ar gyfer trethi'r Alban a threthi'r DU yn sicrhau bod symiau llog yn cael eu diwygio pan fydd trethdalwr yn diwygio ei ffurflen dreth.

---

[42] https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/6/section/157
[43] https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/6/section/157A

10.4 **Rydym yn cynnig y dylid diwygio adran 157 o'r Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi i sicrhau bod unrhyw log sy'n daladwy yn adlewyrchu swm y dreth a gesglir gan ACC a'r cosbau cysylltiedig sy'n ddyledus.**

10.5 Ceisir y newid hwn er mwyn sicrhau mwy o degwch yn y system dreth. Dyma un o'n hegwyddorion polisi trethi. Nid ydym wedi llwyddo i nodi unrhyw ffordd arall o unioni'r sefyllfa hon sydd mor effeithlon neu glir â diwygio adran 157 o'r Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi.

**a) A ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â diwygio'r Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi er mwyn sicrhau pan fydd trethdalwr yn diwygio ei rwymedigaeth i dalu treth am i lawr y dylai unrhyw swm o log adlewyrchu'r diwygiad i'r ffurflen dreth?**

- Cytuno
- Anghytuno

**b) Beth yw'r rhesymau dros eich ateb?**

<u>Newidiadau i drethi</u>

## 11. Gwarediadau trethadwy

11.1 O dan adran 3[44] o Ddeddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017, ystyrir bod gwarediad yn drethadwy os bydd pob un o'r pedwar amod canlynol yn cael eu bodloni:

- Mae deunydd yn cael ei waredu drwy dirlenwi (gweler adran 4)[45].
- Mae'r tir lle y gwneir y gwarediad naill ai:
  - yn safle tirlenwi awdurdodedig (gweler adran 5(1)[46]), neu
  - yn safle lle mae trwydded amgylcheddol yn ofynnol (gweler adran 5(2)) ond nad yw'n safle tirlenwi awdurdodedig.
- Mae'r gwarediad yn warediad o'r deunydd fel gwastraff (gweler adrannau 6[47] a 7[48]).

[44] https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2017/3/section/3
[45] https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2017/3/section/4
[46] https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2017/3/section/5
[47] https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2017/3/section/6
[48] https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2017/3/section/7

- Mae'r gwarediad yn cael ei wneud yng Nghymru.

11.2 Hefyd, mae adran 8[49] o'r Ddeddf yn pennu gweithgareddau penodedig sy'n cael eu trin fel gwarediadau trethadwy pa un a fodlonir yr amodau uchod ai peidio. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Defnyddio deunydd i greu ffordd dros dro sy'n rhoi mynediad i fan gwarediadau tirlenwi neu i gynnal a chadw ffordd o'r fath.
- Defnyddio deunydd i greu arwyneb solet dros dro neu i gynnal a chadw arwyneb o'r fath.
- Defnyddio deunydd i greu bwnd cell neu i gynnal a chadw bwnd o'r fath.
- Defnyddio deunydd (heblaw deunydd sy'n bodoli'n naturiol a echdynnir o'r safle) i greu bwnd sgrinio dros dro neu i gynnal a chadw bwnd o'r fath.
- Defnyddio deunydd i orchuddio man gwarediadau tirlenwi yn ystod cyfnod pan fo gwarediadau tirlenwi yn peidio dros dro.
- Gosod deunydd mewn man gwarediadau tirlenwi i ddarparu sylfaen ar gyfer unrhyw beth a ddefnyddir i leinio, i gapio neu i ddraenio'r man hwnnw, neu er mwyn atal difrod i unrhyw beth o'r fath.
- Cadw deunydd mewn man nad yw at ddibenion gwaredu y tu hwnt i ddiwedd y cyfnod hwyaf a bennir (oni bai yr ymdrinnir â'r deunydd yn unol â chytundeb o dan adran 56(4)(a)).
- Storio lludw (er enghraifft, lludw sy'n codi a lludw gwaelod).
- Defnyddio deunydd mewn gwaith adfer.

11.3 Mae adran 8 hefyd yn rhoi'r pŵer i Weinidogion ddiwygio'r rhestr hon drwy reoliadau.

11.4 Gall anghydfodau ac ymholiadau ynglŷn â phryd y bydd gwarediad trethadwy yn digwydd o dan y Ddeddf Treth Gwarediadau Tirlenwi godi rhwng ACC a threthdalwyr. Gall yr anghydfodau hyn beri oedi o ran gwneud cynnydd tuag at nodau economi gylchol Llywodraeth Cymru, cynyddu costau i drethdalwyr, a chreu anghysondebau drwy'r sector gwastraff cyfan. Ar hyn o bryd, mae'r ddeddfwriaeth yn arwain at ganlyniadau gwahanol i drethdalwyr. Oherwydd y diffyg eglurder yn y ddeddfwriaeth mae gan rai trethdalwyr yr adnoddau i gyflwyno dadleuon ac apelio i'r tribiwnlys o ran y diffiniad o gell dirlenwi Mae

[49] https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2017/3/section/8

hyn yn golygu bod y rhai sydd fwyaf tueddol o ddwyn achosion yn peri oedi cyn bod arian yn cael ei gasglu ar gyfer pwrs cyhoeddus Cymru.

11.5 Er mwyn ymdrin â hyn, rydym yn cynnig y dylid diwygio'r Ddeddf Treth Gwarediadau Tirlenwi i egluro bod unrhyw ddefnydd o ddeunydd mewn cell dirlenwi yn drethadwy oni bai ei fod wedi'i eithrio'n benodol.

11.6 Rydym yn cynnig y bydd y defnyddiau canlynol o ddeunydd mewn cell dirlenwi yn cael eu heithrio rhag bod yn warediadau trethadwy:

- Deunydd a ddefnyddir i ffurfio haen ddraenio yn union uwchben gwaelod y gell;
- Gosod pibellau, pympiau, neu seilwaith cysylltiedig ar gyfer rheoli hylif neu nwy yn y gell;
- Y defnydd o beiriannau neu gyfarpar at ddibenion rheoli gwastraff neu reoli amgylcheddol.

11.7 **Rydym yn cynnig y dylid defnyddio'r un diffiniadau o gell dirlenwi ag a ddefnyddir yng Ngorchymyn Diwygio Treth Dirlenwi'r Alban (Gweithgareddau Safleoedd Tirlenwi Rhagnodedig) 2022[50], sef:**

*uned neu strwythur mewn safle tirlenwi a ffurfiwyd o haen anhydraidd ar waelod ac ochrau'r uned neu'r strwythur ac, ac eithrio lle mae'r gell yn cynnwys deunydd anadweithiol yn unig, ar frig yr uned neu'r strwythur*

11.8 Bwriedir i'r newid hwn roi eglurder i weithredwyr safleoedd tirlenwi ac atgyfnerthu arferion peirianneg da ar safleoedd tirlenwi. Bydd y newid hwn yn atal anghydfodau hirfaith ynghylch a yw deunyddiau penodol a ddefnyddir mewn gweithgareddau peirianneg penodol mewn perthynas â safleoedd tirlenwi wedi cael eu gwaredu fel gwastraff, sy'n golygu felly nad ydynt yn warediadau trethadwy.

**a) A ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â diwygio'r Ddeddf Treth Gwarediadau Tirlenwi i egluro bod unrhyw ddefnydd o ddeunydd mewn cell dirlenwi yn drethadwy oni bai ei fod wedi'i eithrio'n benodol?**

- Cytuno
- Anghytuno

**b) A ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â defnyddio'r un diffiniad o gell dirlenwi ag a ddefnyddiwyd yng Ngorchymyn Diwygio Treth Dirlenwi'r Alban (Gweithgareddau Safleoedd Tirlenwi Rhagnodedig) 2022?**

- Cytuno

[50] Gorchymyn Diwygio Treth Dirlenwi'r Alban (Gweithgareddau Safleoedd Tirlenwi Rhagnodedig) 2022

- Anghytuno

**c) Beth yw'r rhesymau dros eich ateb?**

## 12. Rhyddhad grŵp a chydnabyddiaeth a roddir o'r tu allan i'r grŵp

12.1 Mae Atodlen 16[51] i Ddeddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 yn darparu, pan fydd yr amodau perthnasol wedi'u bodloni, ryddhad rhag y Dreth Trafodiadau Tir ar gyfer trosglwyddo eiddo o fewn grŵp. Mae Rhan 3[52] o Atodlen 16 yn amlinellu'r cyfyngiadau ar argaeledd rhyddhad grŵp; mae Rhan 4[53] o Atodlen 16 yn darparu ar gyfer tynnu'r rhyddhad yn ôl; ac mae Rhan 5[54] o Atodlen 16 yn gwneud darpariaeth i adennill treth heb ei thalu.

12.2 Mae paragraff 2 o'r Atodlen yn darparu y bydd trafodiad yn cael rhyddhad rhag y Dreth Trafodiadau Tir pan fo'r trafodiad rhwng cwmnïau sydd yn yr un grŵp. Cyfeirir at hyn fel "rhyddhad grŵp". Mae rhyddhad grŵp yn caniatáu i gwmnïau drosglwyddo eiddo o fewn grŵp corfforaethol heb fod yn destun y Dreth Trafodiadau Tir, gan nad yw trosglwyddiadau o'r fath yn arwain at sefyllfa lle mae'r eiddo yn gadael y grŵp.

12.3 Yn yr Atodlen hon, diffinnir cwmni fel "corff corfforaethol", a diffinnir cwmnïau fel aelodau o'r un grŵp os yw un yn is-gwmni 75% i'r llall neu os yw'r ddau yn is-gwmnïau 75% i drydydd cwmni.

12.4 Mae Rhan 3 o'r Atodlen yn nodi rheolau yn erbyn osgoi trethi (a nodir eithriadau ym mharagraff 4(2) a (7)) sy'n cyfyngu ar argaeledd rhyddhad grŵp. Mae'r Rhan hon yn gymwys pan ymrwymir i fathau gwahanol o drefniadau lle y gall y cwmni sy'n caffael ddechrau cael ei reoli o'r tu allan i'r grŵp neu lle mae'r prynwr yn peidio â bod yn aelod o'r un grŵp â'r gwerthwr. Pan fo trefniadau o'r fath yn bodoli ar ddyddiad gweithredol y trafodiad, nid yw rhyddhad grŵp ar gael.

12.5 Mae Rhan 3 o'r Atodlen hefyd yn nodi na fydd y rhyddhad ar gael pan roddir cydnabyddiaeth (yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol) o'r tu allan i'r grŵp. Mae paragraff 6 yn nodi nad yw trefniadau morgais penodol yn atal hawliad am ryddhad grŵp.

12.6 Mae'r eithriad pan fydd trefniadau morgais yn peidio ag ysgogi tynnu'r rhyddhad yn ôl yn sicrhau nad yw trafodiadau masnachol yn cael eu dal gan y mesur gwrthweithio osgoi treth. Fodd bynnag, mae ffyrdd eraill o roi

---

[51] https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2017/1/schedule/16
[52] https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2017/1/part/3
[53] https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2017/1/part/4
[54] https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2017/1/part/5

cydnabyddiaeth o'r tu allan i'r grŵp mewn modd nad yw'n gyfystyr ag osgoi. Mae'r rhain yn arwain at dynnu rhyddhad yn ôl ar hyn o bryd.

12.7 Er enghraifft, Arthur yw unig gyfarwyddwr a chyfranddaliwr dau gwmni Alpha ac Omega. Alpha yw rhiant-gwmni Omega. Cwmnïau grŵp ydynt. Mae Omega yn berchen ar eiddo preswyl a brisiwyd (gwerth llyfr) ar £550,000. Mae gan Arthur fenthyciad cyfarwyddwr o £550,000 i Omega. Defnyddiwyd benthyciad Arthur i gaffael yr eiddo preswyl a'i adnewyddu. Bydd yr eiddo preswyl yn cael ei drosglwyddo o Omega i Alpha ar y gwerth llyfr, sef £550,000. Ar adeg cwblhau byddai hyn yn arwain at falans rhyng-gwmni o £550,000 a fyddai'n ddyledus i Omega gan Alpha. Yna, byddai Arthur yn cytuno i aseinio balans cyfrif ei Fenthyciad fel Cyfarwyddwr yn Omega yn llawn ar y dyddiad cwblhau yn erbyn y balans rhyng-gwmni sy'n ddyledus gan Alpha mewn cytundeb am gredyd i gyfrif ei Fenthyciad fel Cyfarwyddwr yn Alpha, a fyddai'n gwrthbwyso'r balans rhyng-gwmni sy'n ddyledus i Beta.

12.8 Yn ein barn ni, ni ddylai'r enghraifft hon arwain at dynnu rhyddhad yn ôl, ond yn seiliedig ar y ffordd y caiff y ddeddfwriaeth ei drafftio ar hyn o bryd, bydd rhyddhad yn cael ei dynnu'n ôl/heb ei ganiatáu yn y lle cyntaf.

12.9 Mae adran 31[55] o Ddeddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 yn darparu rheol gwrthweithio osgoi trethi wedi'i thargedu sy'n gymwys i bob hawliad am ryddhad a wneir gan brynwr. Mae'r rheol yn gweithredu fel na all prynwr hawlio rhyddhad pan fydd y trafodiad yn "drefniant osgoi treth" neu'n rhan o drefniant o'r fath. Diffinnir trefniant osgoi treth fel trefniant lle mai cael "mantais drethiannol" ar gyfer unrhyw berson oedd prif ddiben, neu un o brif ddibenion, y trefniant, ac nad oes prif ddiben â sylwedd economaidd na masnachol dilys i'r trefniant (ac eithrio cael mantais drethiannol).

12.10 **Rydym yn cynnig y dylid diwygio Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 i bennu pan na fydd cydnabyddiaeth a roddir o'r tu allan i'r grŵp yn arwain at dynnu'r rhyddhad yn ôl, oni bai bod y trafodiad yn rhan o gynllun i arbed y Dreth Trafodiadau Tir.**

12.11 Byddai'r newid hwn yn sicrhau nad yw trafodiadau dilys o fewn grŵp yn cael eu dal yn ddamweiniol gan y ddarpariaeth gwrthweithio osgoi trethi.

| |
|---|
| **a) A ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â diwygio Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 i gyflawni'r nod datganedig?**<br>• Cytuno<br>• Anghytuno |

[55] https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2017/1/section/31

**b) Beth yw'r amgylchiadau eraill pan fyddai'n briodol peidio â thynnu'r rhyddhad yn ôl yn eich barn chi?**

**c) A ydych o'r farn y bydd y diwygiad hwn yn cynyddu'r risg o osgoi trethi?**

**d) Beth yw'r rhesymau dros eich ateb?**

## 13. Trafodiadau "A i A+B"

13.1 Mewn un trafodiad eiddo cyffredin mae Person A ("A") yn trosglwyddo eiddo (a ddelir yn enw A yn unig) i enwau A a Pherson B ("B") ar y cyd.

13.2 Er ei bod yn amlwg y bydd B, ar ôl caffael buddiant newydd mewn eiddo, yn 'brynwr' at ddibenion Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017, nid yw'r Ddeddf yn nodi'n benodol a yw A hefyd yn cael ei drin fel 'prynwr' o dan drosglwyddiadau o'r fath.

13.3 Mae diffyg eglurder o'r fath yn creu ansicrwydd cyfreithiol a threthiannol, sy'n gadael trethdalwyr mewn sefyllfa amwys o ran eu rhwymedigaeth i dalu'r Dreth Trafodiadau Tir mewn trafodiadau o'r fath.

13.4 Gellir gweld y mater, drwy roi un enghraifft, yng nghyd-destun trafodiadau eiddo preswyl cyfraddau uwch. Mae Atodlen 5 i Ddeddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 yn nodi'r rheolau ar gyfer penderfynu pryd y bydd caffaeliad prif fuddiant (neu fuddiant y tybir ei fod yn brif fuddiant) yn ddarostyngedig i'r cyfraddau uwch. Yn gyffredinol, pan fydd unigolyn yn cadw prif fuddiant mewn eiddo preswyl ac yn prynu prif fuddiant mewn eiddo preswyl ychwanegol yna mae'n rhaid iddo ystyried a yw'r rheolau ynglŷn â thrafodiadau eiddo preswyl cyfraddau uwch yn gymwys i'r caffaeliad.

13.5 Mae rhan 2 o Atodlen 5 yn nodi pryd mae trafodiad trethadwy yr ymrwymir iddo gan unigolyn ac sy'n ymwneud ag un annedd yn drafodiad eiddo preswyl cyfraddau uwch. Er mwyn i drafodiad fod yn "drafodiad eiddo preswyl cyfraddau uwch" mae'n rhaid iddo fod o fewn paragraff 3(2) ac mae paragraff 5 yn gymwys.

13.6 Mae paragraff 3 a 5 yn nodi bod trafodiad yn drafodiad eiddo preswyl cyfraddau uwch:

- os yw'r prynwr yn unigolyn;
- os yw prif destun y trafodiad ar ffurf prif fuddiant mewn annedd;
- os yw'r gydnabyddiaeth drethadwy ar gyfer y trafodiad yn £40,000 neu fwy; ac

- os yw'r prynwr eisoes yn berchen ar annedd, ac mae'r annedd hon yn werth £40,000 neu fwy ar y farchnad.

13.7 Mae paragraff 6 yn nodi pan fo'r trafodiad yn cynnwys mwy nag un prynwr, y mae pob un ohonynt yn unigolion, fod y trafodiad yn drafodiad eiddo preswyl cyfraddau uwch os yw'r trafodiad yn bodloni'r amodau a nodwyd ym mharagraff 3 mewn perthynas ag unrhyw un o'r prynwyr.

13.8 Ar hyn o bryd, mae amwysedd yn Neddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 ynghylch ai 'prynwr' yw A yn y senario hon.

<u>Example</u>

- Mae Arwel yn berchen ar eiddo prynu i osod. Mae'n byw gyda'i bartner (nid yw'n briod nac mewn partneriaeth sifil), Bethan, mewn eiddo arall y mae hefyd yn unig berchennog arno. Mae'r eiddo yn werth mwy na £400,000. Nid yw Bethan yn berchen ar unrhyw eiddo yn ei henw ei hun.

- Mae Arwel yn ystyried trosglwyddo'r eiddo prynu i osod i'w enw ef ac enw Bethan ar y cyd. Bydd Bethan yn rhoi dros £200,000 o gydnabyddiaeth am ei chaffaeliad yn yr eiddo.

- Trafodiad A i A+B yw hwn am fod Arwel (person A) yn gwerthu buddiant yn yr eiddo prynu i osod a daw Arwel a Bethan (person B) i ddal yr eiddo ar y cyd.

- Nid yw Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 yn dweud yn benodol sut y dylid trin Arwel yn y senario hon.

- Mewn trafodiad A i A+B pe bai Arwel yn cael ei drin yn brynwr (ar y cyd) er ei fod yn lleihau ei fuddiant yn yr eiddo drwy drosglwyddo rhan i Bethan;
- a'i fod yn parhau â buddiant mewn eiddo arall (gyda gwerth >£40,000)

- yna gallai'r trafodiad ddod o fewn cwmpas cyfraddau uwch, er na fyddai Bethan ar ei phen ei hun o bosibl yn gymwys.

13.9 **Er mwyn rhoi eglurder a gwneud y dreth yn decach rydym yn cynnig y dylid cyflwyno darpariaeth yn Neddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 i egluro, mewn trafodiad A i A+B, na ddylid trin A fel prynwr.**

**a) A ydych chi'n cytuno â diwygio Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 i egluro, mewn trafodiad A i A+B, na ddylid trin A fel prynwr?**

- Cytuno
- Anghytuno

**b) A allwch nodi unrhyw risgiau osgoi wrth wneud hyn a sut y gellid eu gwrthsefyll?**

**c) Beth yw'r rhesymau dros eich ateb?**

## 14. Adlewyrchu diwygiadau i gyfraith lesddaliad yn Neddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017

14.1 Hawl gyfreithiol yng Nghymru a Lloegr yw breinio ar y cyd, sy'n caniatáu i lesddeiliaid fflatiau mewn adeilad brynu rhydd-ddaliad yr adeilad hwnnw ar y cyd oddi wrth y landlord. Rhoddir yr hawl hon o dan Ddeddf Diwygio Cyfraith Lesddaliad, Tai a Datblygu Trefol 1993.

14.2 Pan gyflwynwyd y Dreth Trafodiadau Tir, eglurwyd y rheolau bod yn rhaid i'r trethdalwr ystyried ei sefyllfa "ar ddiwedd y dydd" er mwyn cadarnhau a yw ei bryniant yn atebol am y cyfraddau preswyl uwch ai peidio. Ar yr un pryd, cyflwynwyd rheol gwrthweithio osgoi trethi yn y rheolau cyfraddau preswyl uwch yn Atodlen 5 i Ddeddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 (paragraff 3(4)) er mwyn sicrhau na allai prynwr a oedd yn rhoi les o 21 mlynedd neu hwy i berson cysylltiedig o'i fuddiant newydd ei gaffael ar y diwrnod prynu osgoi'r cyfraddau preswyl uwch.

14.3 Er bod y rheol wedi bod yn effeithiol o ran atal y llwybr osgoi posibl, daeth yn amlwg y gall fod goblygiad anfwriadol o bosibl i'r rheol, sef gwneud rhai trafodiadau breinio ar y cyd yn atebol am dalu'r cyfraddau preswyl uwch. Pa un a yw'r cyfraddau preswyl uwch yn dibynnu ar swm y gydnabyddiaeth a roddwyd gan y lesddeiliaid. Dylai'r rhyddhad breinio ar y cyd (rhyddhad sy'n darparu dull cyfrifo gwahanol yn hytrach na rhyddhad o 100%) ddarparu bod y lesddeiliaid yn atebol am dalu'r prif gyfraddau preswyl wrth gaffael, ar y cyd â lesddeiliaid eraill, rydd-ddaliad eu cartref.

14.4 At hynny, mae Llywodraeth y DU yn cynnig y dylid diwygio'r hawl hon drwy Ddeddf Diwygio Cyfraith Lesddaliad a Rhydd-ddaliad 2024 a all arwain at newidiadau pellach i'n deddfwriaeth ynglŷn â'r Dreth Trafodiadau Tir a gaiff eu hwyuso drwy'r Bil hwn lle y bo'n berthnasol.

14.5 **Rydym yn cynnig y dylid gwneud diwygiad er mwyn nodi'n glir na fydd y cyfraddau preswyl uwch yn gymwys i drafodiad y mae'r rhyddhad breinio lesddaliadol yn gymwys iddo.**

14.6 Rydym hefyd yn gweithio gyda chydweithwyr yn CThEF a'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol ar hyn o bryd er mwyn deall effaith Deddf Diwygio Cyfraith Lesddaliad a Rhydd-ddaliad 2024 yn llawn a'i heffaith ar y Dreth Trafodiadau Tir.

14.7 Whilst that rule has been effective in stopping the potential avoidance route, it has become clear that the rule may have the unintended consequence of potentially making some collective enfranchisement transactions liable to the higher residential rates. Whether the higher residential rates depends on the amount of the consideration given by the leaseholders. The collective enfranchisement relief (a relief that provides a different calculation method rather than 100% relief) should provide that the leaseholders are liable to the main residential rates when acquiring, with other leaseholders, the freehold of their home.

14.8 Furthermore, the UK Government are proposing reforms of this right through the Leasehold and Freehold Reform Act 2024 that may result in further changes to our LTT legislation which will be facilitated through this Bill where relevant.

14.9 **We propose making an amendment to make it clear that the higher residential rates will not apply to a transaction to which the leasehold enfranchisement relief applies.**

14.10 We are also currently working with colleagues in HMRC and Ministry of Housing Communities and Local Government to understand the effect of the Leasehold and Freehold Reform Act 2024 in full and its impact on LTT.

a) **A ydych chi'n cytuno bod y newidiadau i sicrhau na chodir treth ar drafodiadau breinio ar y cyd ar y cyfraddau preswyl uwch yn briodol?**

- Cytuno
- Anghytuno

b) **A allwch nodi unrhyw risgiau osgoi wrth wneud hyn a sut y gellid eu gwrthsefyll?**

c) **Beth yw'r rhesymau dros eich ateb?**

## 15. Enwebeion a lesoedd

15.1 Mae paragraff 3(1)[56] o Atodlen 8 i'r Ddeddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) yn nodi'r rheol gyffredinol bod angen "edrych drwy" enwebeion ac ymddiriedolwyr noeth at ddibenion y Dreth Trafodiadau Tir, fel y bydd y prynwr a'r gwerthwr yn berchnogion buddiannol, yn hytrach na chyfreithiol. Diffinnir ymddiriedolaeth noeth (paragraff 2(1)) fel un lle mae eiddo yn cael ei ddal gan ymddiriedolwr i fuddiolwyr sydd â hawl absoliwt mewn perthynas â'r ymddiriedolwr. Mae enwebeion yn cael eu trin yn ymddiriedolwyr noeth at y dibenion hyn.

15.2 Fodd bynnag, ar gyfer lesoedd mae rheolau gwahanol yn gymwys. O dan baragraff 3(3) a (4):

- *if os rhoddir les i ymddiriedolwr noeth, mae'r ymddiriedolwr i'w drin fel lesddeiliad cyfreithiol a buddiannol; ac*

- *os rhoddir les gan ymddiriedolwr noeth, mae'r ymddiriedolwr i'w drin fel y lesydd, sy'n gwaredu'r buddiant cyfreithiol a buddiannol yn y les*

15.3 Ond roedd newidiadau blaenorol a wnaed yn Neddf Cyllid (Rhif 2) 2005 a pharagraff 11 o Atodlen 17A i Ddeddf Cyllid 2003 eisoes yn gwrthweithio osgoi trethi pan roddwyd les i enwebai (drwy drethu aseiniad cyntaf y les fel pe bai ar adeg rhoi'r les). Roedd y rheol hon yn sicrhau bod y rhenti a oedd yn daladwy o dan y les yn dod yn rhan o'r dreth (oherwydd wrth aseinio les dim ond premiwm sy'n gydnabyddiaeth drethadwy fel arfer am y bydd y rhenti sy'n daladwy wedi cael eu trethu wrth roi'r les).

15.4 Fodd bynnag, o dan y rheolau cychwynnol ynglŷn â Threth Dir y Dreth Stamp, nid oedd yn cwmpasu lesoedd a roddwyd **gan** enwebeion. Roedd hyn yn golygu bod lle i wneud trefniadau i osgoi Treth Dir y Dreth Stamp megis trosglwyddo tir i enwebai a rhoi les yn ôl, a allai wedyn gael ei werthu i drydydd parti heb godi Treth Dir y Dreth Stamp.

15.5 Gwnaeth Deddf Cyllid (Rhif 2) 2005 ddisodli'r darpariaethau hynny â'r rheolau presennol sy'n trin lesoedd a roddir **i neu gan** enwebeion fel trafodiadau trethadwy. Roedd hyn yn cau'r risg o osgoi treth ond roedd hefyd yn gwyro oddi wrth yr egwyddor "tryloywder" arferol ar gyfer enwebeion ac ymddiriedolaethau noeth, gan greu eithriad yn fframwaith Treth Dir y Dreth Stamp a'r Dreth Trafodiadau Tir a all arwain at anghysondebau wrth drin lesoedd.

15.6 Yn benodol, cyfyngwyd ar argaeledd rhyddhadau penodol gan y mesur edrych drwy hwn, sy'n golygu na all trafodiadau sy'n rhai gwirioneddol fasnachol gael budd o ryddhadau am eu bod yn cael eu dal gan y mesur gwrthweithio osgoi treth hwn.

[56] https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2017/1/schedule/8

15.7 **Rydym yn cynnig y dylid diwygio Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 er mwyn sicrhau nad yw'r mesur edrych drwy hwn yn cyfyngu ar argaeledd rhyddhadau.**

15.8 Bydd y diwygiad hwn yn ein helpu i ddilyn ein hegwyddor polisi treth ynglŷn â thegwch. Bydd hefyd yn symleiddio'r ffordd y cymhwysir treth at enwebeion lesoedd, gan ein helpu i sicrhau bod trethi datganoledig yn syml ac yn sefydlog.

a) **A ydych chi'n cytuno â diwygio Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 i gyflawni hyn?**

- Cytuno
- Anghytuno

b) **Beth yw'r ffordd orau i ni gyflawni hyn yn eich barn chi?**

c) **A ydych chi'n rhagweld unrhyw weithgarwch osgoi trethi y gallai newid o'r fath arwain ato?**

d) **Os felly, sut y dylem ddeddfu i atal y gweithgarwch osgoi treth?**

e) **Beth yw'r rhesymau dros eich ateb?**

## 16. Cymhwyso Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 at y Goron

16.1 Mae adran 187A(1) yn nodi sut y bydd y Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi yn gymwys i'r Goron mewn perthynas â'r Dreth Trafodiadau Tir. Mae adran 187A(1)(e) yn darparu bod Rhan 8 o'r Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (adolygiadau ac apelau) yn rhwymo'r Goron, ac eithrio ar gyfer rhai darpariaethau penodedig nad ydynt yn ei rhwymo. Mae nifer o wallau teipograffyddol yn yr is-adran hon.

16.2 Yn y lle cyntaf, mae cyfeiriadau at adran 172(1) yn adran 187A(1)(e) yn anghywir gan nad oes darpariaeth a172(1)(d) neu (e). Yn lle hynny, dylid cyfeirio at adran 172(2) sy'n rhestru penderfyniadau apeladwy.

16.3 Dylai adran 172(2) (e) (sy'n nodi adran 172(1)(e) yn wallus ar hyn o bryd) hefyd gael ei dileu o'r rhestr o ddarpariaethau nad ydynt yn rhwymo'r Goron yn adran 187A(1)(e), a hynny oherwydd ystyrir ei bod yn briodol bod gan y Goron yr hawl i ofyn am adolygiad o benderfyniad i roi hysbysiad gwybodaeth neu i gynnwys gofyniad penodol mewn hysbysiad o'r fath neu i apelio yn erbyn penderfyniad o'r fath. At hynny, bydd dileu:

- a172(3)(b) ac (c);
- a172(4);
- a172(5);
- a172(6) ac
- a183

16.4 o’r darpariaethau eithriedig yn a187A(1)(e) hefyd yn sicrhau bod yr hawliau arferol i ofyn am adolygiad neu i apelio yn erbyn hysbysiadau gwybodaeth yn y Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi yn cael eu rhoi i’r Goron.

**16.5 Rydym yn awgrymu y dylid diwygio’r ddeddfwriaeth yn adran 187A(1) i gynnwys y cyfeiriad cywir a sicrhau bod hawliau’r Goron i apelio yn erbyn hysbysiadau gwybodaeth yn cael eu rhoi.**

16.6 Rydym yn ceisio’r newid hwn er mwyn rhoi effaith i fwriad y ddeddfwrfa pan basiwyd y Ddeddf.

**a) A ydych chi’n cytuno â’r diwygiadau arfaethedig i’r adran hon ac yn enwedig diwygio adran 187A(1) er mwyn sicrhau bod yr hawliau i ofyn am adolygiad neu apêl yn cael eu rhoi i’r Goron?**

- Cytuno
- Anghytuno

**b) A oes gennych unrhyw sylwadau eraill ar y ffordd y mae cymhwyso at y Goron yn gweithredu?**

**c) Beth yw’r rhesymau dros eich ateb?**

Y Gymraeg

**17.** Beth fyddai effeithiau tebygol y cynigion ar y Gymraeg yn eich barn chi? Hoffem glywed yn arbennig am unrhyw effeithiau tebygol ar gyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg.

**a) A oes unrhyw gyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau cadarnhaol, yn eich barn chi?**

**b) A oes unrhyw gyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol, yn eich barn chi?**

**18.** Yn eich barn chi, sut y gellid llunio neu newid y cynigion er mwyn:

**a) cael effeithiau cadarnhaol neu effeithiau mwy cadarnhaol ar ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; neu**

**b) liniaru unrhyw effeithiau negyddol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?**

Cwestiynau eraill

**19.** Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi ymdrin â nhw'n benodol, defnyddiwch y lle hwn i'w nodi:

**Nodwch nhw yma:**

Tryloywder ac ymgysylltu

Rydym yn credu yn egwyddorion cyd-greu a phartneriaeth gref â threthdalwyr a'r diwydiant treth ledled Cymru. Rydym yn ymrwymedig i egwyddor tryloywder er mwyn cefnogi atebolrwydd a dealltwriaeth o'r ffordd y mae ein trethi'n gweithio.

Amserlenni gweithredu

Bydd yr ymgynghoriad hwn yn rhedeg o 3 Tachwedd 2025 ac yn cau ar 26 Ionawr 2026.

Rhagwelwn y bydd canlyniad yr ymgynghoriad yn cael ei ystyried yn llawn gan Lywodraeth Cymru ar ôl etholiad 2026 y Senedd. Bydd unrhyw newidiadau i ddeddfwriaeth o ganlyniad i'r ymgynghoriad hwn yn cael eu gweithredu gan Lywodraeth Cymru ar ôl yr etholiad. Byddem yn disgwyl i Fil gael ei osod yn ystod blwyddyn gyntaf y Senedd.

Mae'r ymatebion i ymgyngoriadau yn debygol o gael eu cyhoeddi, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma:

## Atodiad A – Crynodeb o gwestiynau'r ymgynghoriad

Llywodraethu ACC

**Cwestiwn 1**

a) A ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r diwygiad arfaethedig i'r Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi i egluro cyfansoddiad pwyllgorau ac is-bwyllgorau bwrdd ACC?
- Cytuno
- Anghytuno

b) A ydych chi'n cytuno y gall unigolion nad ydynt yn aelodau o ACC (h.y. aelodau o staff ACC nad ydynt yn aelodau o'r Bwrdd) bleidleisio mewn pwyllgorau ac is-bwyllgorau y maent yn aelodau ohonynt (yn unol â'r Cylch Gorchwyl) heblaw am y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd a'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth?
- Cytuno
- Anghytuno

c) Beth yw'r rhesymau dros eich ateb?

Pwerau trethu ACC

**Cwestiwn 2**

a) A ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â diwygiad i'r Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi i ganiatáu i ACC rannu gwybodaeth warchodedig am drethdalwr â phrif gynghorau a Llywodraeth Cymru at ddibenion eu swyddogaethau?
- Cytuno
- Anghytuno

b) Pa fesurau diogelu sy'n angenrheidiol er mwyn diogelu gwybodaeth am drethdalwr yn eich barn chi?

c) Beth yw'r rhesymau dros eich ateb?

**Cwestiwn 3**

a. A ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â diwygio'r Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi i ganiatáu i ACC rannu gwybodaeth warchodedig am drethdalwr â phrif gynghorau at ddibenion swyddogaethau ardoll ymwelwyr ACC?
- Cytuno
- Anghytuno

b. A ydych chi'n credu bod angen rhoi unrhyw fesurau ychwanegol i ddiogelu trethdalwyr ar waith?

c. Beth yw'r rhesymau dros eich ateb?

**Cwestiwn 4**

a) A ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â diwygio'r Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi i roi'r pŵer i ACC gadw ad-daliadau yn ôl tra bydd yn cynnal ymholiad?
- Cytuno
- Anghytuno

b) A ydych chi’n cytuno y dylai penderfyniad i gadw ad-daliad yn ôl fod yn un apeladwy?
- Cytuno
- Anghytuno

c) A fyddai unrhyw fesurau ychwanegol i ddiogelu trethdalwyr yn fuddiol ar y cyd â’r pŵer hwn?
d) A ydych chi’n credu y dylai fod terfyn amser ar faint o amser y bydd gan ACC i benderfynu a ddylid ad-dalu neu agor ymholiad, ar ôl i drethdalwr gyflwyno diwygiad iddo?
e) Beth yw’r rhesymau dros eich ateb?

**Cwestiwn 5**

a) A ydych chi’n cytuno neu’n anghytuno y dylid gwneud y Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi yn fwy eglur er mwyn sicrhau nad oes angen i ACC agor ymholiad i wrthod hawliad pan fydd adran 67 yn gymwys?
- Cytuno
- Anghytuno

b) Beth yw’r rhesymau dros eich ateb?

**Cwestiwn 6**

a) A ydych chi’n cytuno neu’n anghytuno â diwygio’r Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi i roi pŵer i ACC allu rhoi hysbysiad gwybodaeth i gasglu gwybodaeth i gadarnhau a yw’r amodau ar gyfer tynnu rhyddhad yn ôl wedi’u bodloni?
- Cytuno
- Anghytuno

b) Beth yw’r rhesymau dros eich ateb?

**Cwestiwn 7**

a) A ydych chi’n cytuno neu’n anghytuno â diwygio’r Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi i ganiatáu i ACC gynnal ymweliadau dirybudd at ddibenion y Dreth Gwarediadau Tirlenwi heb gymeradwyaeth y tribiwnlys na’r trethdalwr?
b) Cytuno
c) Anghytuno
b) A oes unrhyw fesurau ychwanegol i ddiogelu trethdalwyr y dylid eu cynnwys yn eich barn chi?
c) Beth yw’r rhesymau dros eich ateb?

**Cwestiwn 8**

a) A ydych chi’n cytuno neu’n anghytuno â mewnosod pŵer i wneud rheoliadau i ganiatáu i Weinidogion Cymru amrywio swm cosbau penodedig?
- Cytuno
- Anghytuno

b) Beth yw’r rhesymau dros eich ateb?

**Cwestiwn 9**

a) A ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â chynyddu swm y llog ar godir ar daliadau hwyr i 4% ar ben cyfradd sylfaenol Banc Lloegr?
- Cytuno
- Anghytuno

b) Beth yw'r rhesymau dros eich ateb?

**Cwestiwn 10**

a) A ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â diwygio'r Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi er mwyn sicrhau pan fydd trethdalwr yn diwygio ei rwymedigaeth i dalu treth am i lawr y dylai unrhyw swm o log adlewyrchu'r diwygiad i'r ffurflen dreth?
- Cytuno
- Anghytuno

b) Beth yw'r rhesymau dros eich ateb?

<u>Newidiadau i drethi</u>

**Cwestiwn 11**

a) A ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â diwygio'r Ddeddf Treth Gwarediadau Tirlenwi i egluro bod unrhyw ddefnydd o ddeunydd mewn cell dirlenwi yn drethadwy oni bai ei fod wedi'i eithrio'n benodol?
- Cytuno
- Anghytuno

b) A ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â defnyddio'r un diffiniad o gell dirlenwi ag a ddefnyddiwyd yng Ngorchymyn Diwygio Treth Dirlenwi'r Alban (Gweithgareddau Safleoedd Tirlenwi Rhagnodedig) 2022?
- Cytuno
- Anghytuno

c) Beth yw'r rhesymau dros eich ateb?

**Cwestiwn 12**

a) A ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â diwygio Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) i gyflawni'r nod datganedig?
- Cytuno
- Anghytuno

b) Beth yw'r amgylchiadau eraill pan fyddai'n briodol peidio â thynnu'r rhyddhad yn ôl yn eich barn chi?

c) A ydych o'r farn y bydd y diwygiad hwn yn cynyddu'r risg o osgoi trethi?

d) Beth yw'r rhesymau dros eich ateb?

**Cwestiwn 13**

a) A ydych chi'n cytuno â diwygio Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 i egluro, mewn trafodiad A i A+B, na ddylid trin A fel prynwr?
    - Cytuno
    - Anghytuno

b) A allwch nodi unrhyw risgiau osgoi wrth wneud hyn a sut y gellid eu gwrthsefyll?

c) Beth yw'r rhesymau dros eich ateb?

**Cwestiwn 14**

a) A ydych chi'n cytuno bod y newidiadau i sicrhau na chodir treth ar drafodiadau breinio ar y cyd ar y cyfraddau preswyl uwch yn briodol?
- Cytuno
- Anghytuno

b) A allwch nodi unrhyw risgiau osgoi wrth wneud hyn a sut y gellid eu gwrthsefyll?
c) Beth yw'r rhesymau dros eich ateb?

**Cwestiwn 15**

a) A ydych chi'n cytuno â diwygio Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) i gyflawni hyn?
- Cytuno
- Anghytuno

b) Beth yw'r ffordd orau i ni gyflawni hyn yn eich barn chi?
c) A ydych chi'n rhagweld unrhyw weithgarwch osgoi trethi y gallai newid o'r fath arwain ato?
d) Os felly, sut y dylem ddeddfu i atal y gweithgarwch osgoi treth?
e) Beth yw'r rhesymau dros eich ateb?

**Cwestiwn 16**

a) A ydych chi'n cytuno â'r diwygiadau arfaethedig i'r adran hon ac yn enwedig diwygio adran 187A(1) er mwyn sicrhau bod yr hawliau i ofyn am adolygiad neu apêl yn cael eu rhoi i'r Goron?
- Cytuno
- Anghytuno

b) A oes gennych unrhyw sylwadau eraill ar y ffordd y mae cymhwyso at y Goron yn gweithredu?
c) Beth yw'r rhesymau dros eich ateb?

**Cwestiwn 17**

Beth fyddai effeithiau tebygol y cynigion ar y Gymraeg yn eich barn chi? Hoffem glywed yn arbennig am unrhyw effeithiau tebygol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

a) A oes unrhyw gyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau cadarnhaol, yn eich barn chi?
b) A oes unrhyw gyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol, yn eich barn chi?

**Cwestiwn 18**

Yn eich barn chi, sut y gellid llunio neu newid y cynigion er mwyn:

a) cael effeithiau cadarnhaol neu effeithiau mwy cadarnhaol ar ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; neu
b) liniaru unrhyw effeithiau negyddol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

**Cwestiwn 19**

a) Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi ymdrin â nhw'n benodol, defnyddiwch y lle hwn i'w nodi:

## Atodiad B – Rhestr o ffynonellau

Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 https://www.legislation.gov.uk/anaw/2017/1

Treth Trafodiadau Tir: rhagarweiniad Treth Trafodiadau Tir: rhagarweiniad | LLYW.CYMRU

Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017 https://www.legislation.gov.uk/anaw/2017/3

Treth Gwarediadau Tirlenwi: rhagarweiniad Treth Trafodiadau Tir: rhagarweiniad | LLYW.CYMRU

Y Cyfarfod Llawn Plenary 01/07/2025 https://record.senedd.wales/Plenary/15175

Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 https://www.legislation.gov.uk/anaw/2016/6

Y diweddariad ar y fframwaith polisi trethi Y diweddariad ar y fframwaith polisi trethi | LLYW.CYMRU

The Scottish Landfill Tax (Prescribed Landfill Site Activities) Amendment Order 2022 https://www.legislation.gov.uk/ssi/2022/233/made

Cynllun Corfforaethol Awdurdod Cyllid Cymru 2025 i 2028 Cynllun Corfforaethol Awdurdod Cyllid Cymru 2025 i 2028 | LLYW.CYMRU

Awdurdod Cyllid Cymru: Ein siarter Ein siarter: Awdurdod Cyllid Cymru | LLYW.CYMRU